Bundle Bwrdd AaGIC (Agored) 28 May 2020

AGENDA

CYM - Agenda (Open) Board May 2020 V4.docx

1 RHAN 1 - MATERION RHAGARWEINIOL

1.1 Croeso a Chyflwyniadau

1.2 Ymddiheuriadau am absenoldeb

1.3 Datgan buddiannau

1.4 Derbyn a chadarnhau cofnodion y Bwrdd a gynhaliwyd ar 26 Mawrth 2020

1.4 - CY - Unconfirmed March Board Minutes (Open) V3 approved by CDVJ.docx

1.5 Cofnod Gweithredu

1.5 - CY - DRAFT March Board Action Log _2020-03-26 (Open) V2.docx

1.6 Materion yn Codi

2 RHAN 2 - ADRODDIADAU'R CADEIRYDD A'R PRIF WEITHREDWR

2.1 Adroddiad y Cadeirydd

2.1 - CY - Chairs report may 2020 cyf mai 20.docx

2.2 Adroddiad y Prif Weithredwr

2.2 - CY - CEO Board Report May 2020.21.05.20(DB) cyf meh 20.docx

2.3 Diweddariad COVID 19:

2.3.1 • AaGIC Chwarter 1 Cynllun Gweithredol – COVID 19

2.3.1a - CY - Board 28 May 2020 HEIW COVID oper plan.cyf meh 20.docx

2.3.1b - Appendix 1 Operating Framework for NHSW Q1 vers final (003).docx

2.3.1c - Appendix 2 HEIW Operational Plan - submitted final draft 18.05.20_.docx

2.3.2 • Ymateb AaGIC i oblygiadau COVID-19

2.3.2a - CY - Board 28 May 2020 HEIW COVID Response covering paper v2.cyf meh 20.docx

2.3.2b - COVID Stats Inforgraphic 130520.pdf

3 RHAN 3 - EITEMAU STRATEGOL

3.1 Y diweddaraf am y Cynllun Tymor Canolig Integredig:

3.1.1 • Adolygiad o Gynllun Tymor Canolig Integredig 2020-21 i 2022-23 a Rhaglen Waith Ddiwygiedig AaGIC

3.1.1a - CY - Approach to IMTP revision update May Board cyf mai 20.docx

3.1.1b - HEIW IMTP 2020-21 to 2022-23 - Objectives - review of 20-21 v6 Clean - 18.05.20.docx

3.1.2 • Cynllun Adnoddau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig

3.1.2a - CY - Resource Plan 2020-21 Board.cyf meh 20.docx

3.1.2b - Appendix 1.docx

3.1.2c - Appendix 2.pdf

3.2 Diweddariad ar Gynllun Addysg a Hyfforddiant Blynyddol 2021/22

3.2 - CY - May 2020 - Education Commissioning presentation v2.1.pptx

4 RHAN 4 - LLYWODRAETHU, PERFFORMIAD A SICRWYDD

4.1 Cyfrifon Terfynol 2019/2020

4.1a - CY - Annual Accounts May Board cyf mai 20.docx

4.1b - Appendix 1_011 HEIW Template 2019-20 V4.pdf

4.1c - Appendix 2_HEIW Audit of Accounts Report 2019-20 (draft for AA Cte 26-05-20).pdf

4.2 Adroddiad Cyllid

4.2a - CY - Finance Report Board and Committees (V3 28-04-20).cyf meh 20.docx

4.2b - May 2020 - Board Finance Paper Appendix 1 DRAFT.docx

4.2c - Appendix 2_2020-21 Reduced Combined MMR Template - HEIW M1.pdf

4.3 Adroddiad Perfformiad Sefydliadol Integredig 4 AaGIC, Adroddiad Diwedd Blwyddyn 2019-20

4.3a - CY - 2020-05-28 Cover paper-Eng-May Board 2020 Performance Report_.docx

4.3b - 2020-05-28 Board report - End year performance 2019-20 - Final.docx

4.3c - 2020-05-20 - HEIW - Performance Reporting - Mar20 (1).pdf

4.4 Proses Ymgynghori'r Cynllun Iaith Gymraeg

4.4a - CY - Welsh Language Update_21.05.20.docx

4.4b - App 1 WL Paper WL Scheme.docx

4.4c - App 2 May Board Action Plan.docx

4.4d - App 3 WL May 2020 Board Narrative to Cynllun Iaith Gymraeg.docx

4.5 Newid i'r Terfynau Ariannol/Rheolau Sefydlog Dirprwyedig

4.5a - CY - cover paper - amendment to Del Fin Lim. (DB) 21.05.20.docx

4.5b - Appendix 1. Del Financial Limit 21.05.20 (DB).docx

4.6 Cael adroddiad ar faterion allweddol gan:

4.6.1 • Pwyllgorau Archwilio a Sicrwydd a gynhaliwyd ar 1 Ebrill 2020; 6 Mai 2020 a 26 Mai 2020

4.6.1a(i) - CY_Chair Key Issue Cover Report-Audit_Assurance_Committee_2020-04-01 (Open) V3 approved by GL.docx

4.6.1a(ii) - Appendix 1_Chair Key Issue report_Audit_Assurance_Committee_2020-04-01 (Open) V3 approved by GL.docx

4.6.1b(i) - CY_Chair Key Issue Cover Report-Audit_Assurance_Committee_2020-05-06 (Open) V2 approved by GL.docx

4.6.1b(ii) - Appendix 1_Chair Key Issue report_Audit_Assurance_Committee_2020-05-06 (Open) V2 approved by GL.docx

4.6.2 • Pwyllgor Addysg, Comisiynu ac Ansawdd a gynhaliwyd ar 9 Ebrill 2020

4.6.2a - CY - ECQC Chair Key Issue Cover Report_2020-04-09 (Open) V3 approved by RH.docx

4.6.2b - Appendix 1_ECQC Chair Key Issue Report_2020-04-09 (Open) V3 approved by RH.docx

4.7 Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd

4.7a - CY - Audit_Assurance_Committee Annual Report_2019-2020 Cover Report V1.docx

4.7b - Audit_Assurance_Committee Annual Report 2019-2020 FINAL.docx

4.8 Penderfyniadau Mewnol

4.8 - CY - In Committee Decisions from March & April Board V1.docx

5 RHAN 5 - MATERION ERAILL

5.1 Unrhyw faterion brys eraill

5.2 Crynodeb o'r prif gamau gweithredu

5.3 Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf:

5.3.1 • Bwrdd AaGIC i gael ei gynnal ar 25 Mehefin 2020 i'w gadarnhau naill ai drwy Skype/Telegynhadledd neu i gael ei gynnal yn T Dysgu, Nantgarw

5.3.2 • Sesiwn ar Ddatblygu Bwrdd AaGIC i gael ei gynnal ar 25 Mehefin 2020 i'w gadarnhau naill ai drwy Skype/Telegynhadledd neu i gael ei gynnal yn T Dysgu, Nantgarw

5.3.3 • Bwrdd AaGIC i gael ei gynnal ar 30 Gorffennaf 2020 yn T Dysgu, Nantgarw

ADDYSG A GWELLA IECHYD CYMRU (AaGIC)

Cyfarfod y Bwrdd – 10.00am-12.30pm

i'w gynnal ddydd Iau, 28 Mai 2020
Drwy Skype/Telegynhadledd

AGENDA

RHAN 1	**MATERION RHAGARWEINIOL**	**10:00-10:10**
1.1	Croeso a Chyflwyniadau	Cadeirydd/Ar lafar
1.2	Ymddiheuriadau am Absenoldeb	Cadeirydd/Ar lafar
1.3	Datgan buddiannau	Cadeirydd/Ar lafar
1.4	Derbyn a chadarnhau cofnodion y Bwrdd a gynhaliwyd ar 26 Mawrth 2020	Cadeirydd/ Atodiad
1.5	Cofnod Gweithredu	Cadeirydd/Atodiad
1.6	Materion yn Codi	Cadeirydd/Ar lafar
RHAN 2	**ADRODDIADAU'R CADEIRYDD A'R PRIF WEITHREDWR**	**10:10-10:40**
2.1	Adroddiad y Cadeirydd	Cadeirydd/ Atodiad
2.2	Adroddiad y Prif Weithredwr	Prif Weithredwr/ Atodiad
2.3	Diweddariad COVID 19: • AaGIC Chwarter 1 Cynllun Gweithredol – COVID 19 • Ymateb AaGIC i oblygiadau COVID-19	Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol/ Cyfarwyddwr y Gweithlu a'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau/ Atodiad
RHAN 3	**EITEMAU STRATEGOL**	**10:40-10:50**
3.1	Y diweddaraf am y Cynllun Tymor Canolig Integredig: • Adolygiad o Gynllun Tymor Canolig Integredig 2020-21 i 2022-23 a Rhaglen Waith Ddiwygiedig AaGIC • Cynllun Adnoddau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig	Cyfarwyddwr y Gweithlu a'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau/ Atodiad
3.2	Diweddariad ar Gynllun Addysg a Hyfforddiant Blynyddol 2021/22	Cyfarwyddwr Nyrsio/ Cyflwyniad
RHAN 4	**LLYWODRAETHU, PERFFORMIAD A SICRWYDD**	**10:50-12:20**
4.1	Cyfrifon Terfynol 2019/2020	Cyfarwyddwr Cyllid/ Atodiad

4.2	Adroddiad Cyllid	Cyfarwyddwr Cyllid/ Atodiad
4.3	Adroddiad Perfformiad Sefydliadol Integredig 4 AaGIC, Adroddiad Diwedd Blwyddyn 2019-20	Cyfarwyddwr y Gweithlu a'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau/ Atodiad
4.4	Proses Ymgynghori'r Cynllun Iaith Gymraeg	Ysgrifennydd y Bwrdd/ Atodiad
4.5	Newid i'r Terfynau Ariannol/Rheolau Sefydlog Dirprwyedig	Ysgrifennydd y Bwrdd/ Atodiad
4.6	Cael adroddiad ar faterion allweddol gan: • Pwyllgorau Archwilio a Sicrwydd a gynhaliwyd ar 1 Ebrill 2020; 6 Mai 2020 a 26 Mai 2020 • Pwyllgor Addysg, Comisiynu ac Ansawdd a gynhaliwyd ar 9 Ebrill 2020	Cadeirydd y Pwyllgor/ Atodiadau ac ar Lafar Cadeirydd y Pwyllgor/ Atodiadau
4.7	Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd	Cadeirydd y Pwyllgor/ Atodiad
4.8	Penderfyniadau Mewnol	Ysgrifennydd y Bwrdd/ Atodiad
RHAN 5	**MATERION ERAILL**	**12:20-12:30**
5.1	Unrhyw faterion brys eraill	Cadeirydd/Ar lafar
5.2	Crynodeb o'r prif gamau gweithredu	Cadeirydd/Ar lafar
5.3	Dyddiadau'r Cyfarfodydd Nesaf: • **Bwrdd** AaGIC i gael ei gynnal ar **25 Mehefin 2020** i'w gadarnhau naill ai drwy Skype/Telegynhadledd neu i gael ei gynnal yn Tŷ Dysgu, Nantgarw • **Sesiwn ar Ddatblygu Bwrdd** AaGIC i gael ei gynnal ar **25 Mehefin 2020** i'w gadarnhau naill ai drwy Skype/Telegynhadledd neu i gael ei gynnal yn Tŷ Dysgu, Nantgarw • **Bwrdd** AaGIC i gael ei gynnal ar **30 Gorffennaf 2020** yn Tŷ Dysgu, Nantgarw	

Yn unol â darpariaethau Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, gwneir penderfyniad i wahardd cynrychiolwyr y wasg ac aelodau eraill y cyhoedd o ran olaf y cyfarfod ar y sail y byddai'n niweidiol i fudd y cyhoedd oherwydd natur gyfrinachol y busnes sydd i'w drafod. Cynhelir rhan hon y cyfarfod yn breifat.

Heb gadarnhau Cofnodion Cyfarfod Bwrdd AaGIC
a gynhaliwyd ar 26 Mawrth 2020 am 10:00am
drwy Skype/Telegynhadledd

Yn bresennol:

Dr Chris Jones	Cadeirydd
John Hill-Tout	Is-gadeirydd, Aelod Annibynnol
Tina Donnelly	Aelod Annibynnol
Dr Ruth Hall	Aelod Annibynnol
Gill Lewis	Aelod Annibynnol
Yr Athro Ceri Phillips	Aelod Annibynnol
Dr Heidi Phillips	Aelod Annibynnol
Alex Howells	Prif Weithredwr
Stephen Griffiths	Cyfarwyddwr Nyrsio
Yr Athro Pushpinder Mangat	Cyfarwyddwr Meddygol
Julie Rogers	Cyfarwyddwr y Gweithle a'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau
Eifion Williams	Cyfarwyddwr Cyllid.

Presennol:

Dafydd Bebb	Ysgrifennydd y Bwrdd
Kay Barrow	Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol (Ysgrifenyddiaeth)
Angharad Price	Pennaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu

RHAN 1	MATERION RHAGARWEINIOL	Cam Gweithredu
2603/1.1	**Croeso a Chyflwyniadau**	
	Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb i gyfarfod Bwrdd Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC).	
2603/1.2	**Ymddiheuriadau am Absenoldeb**	
	Doedd dim ymddiheuriadau am absenoldeb.	
2603/1.3	**Datgan Buddiannau**	
	Dywedodd Tina Donnelly wrth y Bwrdd nad yw hi'n Uchel Siryf mwyach.	
2603/1.4	**Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod Bwrdd a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2020**	
	Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2020 eu **derbyn** a'u **cymeradwyo** fel cofnod cywir o'r cyfarfod.	
2603/1.5	**Cofnod Gweithredu**	

DRAFT

	Fe wnaeth y Bwrdd **dderbyn** y Cofnod Camau Gweithredu o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2020, a **nodi** bod yr holl gamau gweithredu naill ai ar waith, wedi cael eu hychwanegu at y flaenraglen waith neu wedi cael eu cwblhau.	

2603/1.6	**Materion yn codi**	
	Doedd dim materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol.	
2603/2	**ADRODDIADAU'R CADEIRYDD A'R PRIF WEITHREDWR**	
2603/2.1	**Adroddiad y Cadeirydd**	
	Derbyniwyd adroddiad y Cadeirydd. Wrth gyflwyno'r adroddiad, nododd y Cadeirydd fod y Bwrdd wedi cael Cyfarfod Briffio ddydd Gwener 20 Mawrth 2020 ynglŷn â Chynlluniau Parhad Busnes AaGIC yn ystod Pandemig COVID-19. Esboniodd, oherwydd yr ansicrwydd, y byddai'r Bwrdd yn cael briff ysgrifenedig bob wythnos i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddyn nhw. Fodd bynnag, byddai trefniadau'n cael eu gwneud er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf drwy gyfarfod telegynadledda pe bai angen. Fe wnaeth y Cadeirydd gymeradwyo cydweithrediad , proffesiynoldeb ac agwedd staff AaGIC tuag at waith yn eu hymateb i bandemig COVID-19. Pwysleisiwyd ei bod yn bwysig bod staff yn cynnal cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith yn ystod y cyfnod ansicr hwn, a bod gan AaGIC rôl bwysig i'w chwarae er mwyn sicrhau llesiant ei staff. Dywedodd y Cadeirydd wrth y Bwrdd ei fod wedi cymryd Cam Gweithredu fel Cadeirydd, yn dilyn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr ac Ysgrifennydd y Bwrdd, i amrywio elfennau o Reolau Sefydlog AaGIC mewn ymateb i Bandemig COVID-19. Byddai Cam Gweithredu'r Cadeirydd yn caniatáu i gyfarfod Bwrdd AaGIC ar 26 Mawrth 2020; y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ar 1 Ebrill 2020; a'r Pwyllgor Addysg, Comisiynu ac Ansawdd ar 9 Ebrill 2020 gael eu cynnal drwy gynhadledd electronig, ac ni ddylid eu cynnal yn gyhoeddus oherwydd y cyfyngiadau cadw pellter. Mae Cam Gweithredu'r Cadeirydd wedi cael ei gydlofnodi gan Gill Lewis a John Hill-Tout hefyd. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Bwrdd gymeradwyo'r canlynol hefyd: • bod holl gyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau yn cael eu cynnal drwy gynhadledd electronig tan fis Mai 2020 a drwy gydol y mis hwnnw; • ei fod yn cael awdurdod dirprwyedig i benodi aelodau ychwanegol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd a'r Pwyllgor Addysg, Comisiynu	

DRAFT

	ac Ansawdd er mwyn cynnal cworwm ar gyfer gwneud penderfyniadau yn ystod Pandemig COVID-19. Nodwyd bod Tina Donnelly wedi cadarnhau y byddai ar gael i fynd i'r Pwyllgor Addysg, Comisiynu ac Ansawdd oedd wedi'i drefnu ar gyfer 9 Ebrill 2020. Codwyd pryderon yng nghyswllt nifer bach o broblemau technolegol yr oedd angen eu goresgyn ac y byddai rhaglenni technolegol fel Zoom yn cael eu hystyried wrth symud ymlaen.	

Penderfynwyd	Fe wnaeth y Bwrdd: • **nodi** adroddiad y Cadeirydd; • **cadarnhau** Cam Gweithredu'r Cadeirydd; • **cymeradwyo** y dylid cynnal holl gyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau drwy gynhadledd electronig tan fis Mai 2020 a drwy gydol y mis hwnnw; • **cytuno** bod y Cadeirydd yn cael awdurdod dirprwyedig i benodi aelodau ychwanegol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd a'r Pwyllgor Addysg, Comisiynu ac Ansawdd tan fis Mai 2020; • gofyn i Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a Thîm Digidol a TG AaGIC ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio rhaglen 'Zoom'.	**DB**
2603/2.2	**Adroddiad y Prif Weithredwr**	
	Derbyniwyd adroddiad y Prif Weithredwr. Wrth gyflwyno'r adroddiad, nododd Alex Howells mai prif ffocws AaGIC ers dechrau mis Mawrth 2020 oedd sicrhau ei fod yn barod am argyfwng y Pandemig COVID-19 yn unol â chyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru. O ganlyniad, o 23 Mawrth 2020 ymlaen, fe wnaeth AaGIC roi cynlluniau ar waith i symud tuag at drefniant lle oedd mwy o staff yn gweithio gartref er mwyn lleihau teithio nad yw'n hanfodol ac i fodloni'r gofynion o ran cadw pellter cymdeithasol. Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd yn sgil gohirio'r broses dendro ar gyfer y Contractau Addysg i Weithwyr Iechyd Proffesiynol dros dro, nododd Stephen Griffiths ei fod wedi trafod y risgiau gyda'r prifysgolion yng nghyswllt eu gallu i fodloni'r amserlen ddiwygiedig yn sgil ansicrwydd ac effaith cyfyngiadau presennol Pandemig COVID-19. Esboniodd y byddai prifysgolion yn croesawu'r gohirio ond bod pryder ynghylch effaith unrhyw gyfyngiadau hir, oherwydd gallai hyn effeithio ar y dyddiad cychwyn ym mis Medi 2022. Byddai adroddiad llawn yn cael ei ystyried yn y Pwyllgor Addysg, Comisiynu ac Ansawdd oedd wedi'i drefnu ar 9 Ebrill 2020.	
Penderfynwyd	Fe wnaeth y bwrdd **nodi** adroddiad y Prif Weithredwr	
2603/2.3	**Coronafeirws:**	
2603/2.3.1	**Diweddariad y Prif Weithredwr**	

DRAFT

	Derbyniwyd adroddiad y Prif Weithredwr. Wrth gyflwyno'r adroddiad, nododd Alex Howells fod atodiad ar goll o'r adroddiad yn ymwneud â blaenoriaethu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn sgil effaith COVID-19. Byddai hwn yn cael ei ddosbarthu ar ôl y cyfarfod. Esboniodd fod y sefyllfa yng nghyswllt COVID-19 yn newid yn gyson. Nododd fod Tîm Cynllunio at Argyfwng AaGIC wedi rhoi Cynllun Parhad Busnes AaGIC ar waith a bod y Tŷ Dysgu dan gyfyngiadau symud llwyr am y bythefnos nesaf, yn dilyn y cyngor lleol a chenedlaethol diweddar. Byddai'r sefyllfa'n cael ei hadolygu wrth i'r cyngor lleol a chenedlaethol gael ei ddiweddaru. Darparwyd trosolwg o'r camau gweithredu allweddol a'r camau nesaf mewn ymateb i'r sefyllfa sy'n esblygu yn sefydliadau'r GIG ac yng ngweithgarwch parhad busnes AaGIC. Roedd trafodaethau'n cael eu cynnal gyda rheoleiddwyr a phrifysgolion ynghylch rhyddhau hyfforddeion/myfyrwyr i weithlu rheng flaen y GIG. Byddai strategaeth gyfathrebu glir yn cael ei datblygu er mwyn sicrhau bod hyfforddeion a myfyrwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n glir mewn ymateb i COVID-19. Rhoddwyd esboniad o'r ymgyrchoedd recriwtio amrywiol sy'n cael eu cynnal ledled Cymru a Lloegr mewn perthynas â gwirfoddolwyr cymunedol; gweithwyr sy'n dychwelyd; gweithwyr wedi ymddeol sy'n dychwelyd; ac adleoli staff. Codwyd pryderon yng nghyswllt diffyg cyfathrebu, hyfforddiant neu gymorth ychwanegol ar gyfer y gweithlu locwm. Ymhlith y materion i'w hystyried eraill a godwyd, roedd yr effaith ar fyfyrwyr meddygaeth a nyrsio mewn lleoliadau gwledig a'r diffyg Cyfarpar Diogelu Personol a pheiriannau anadlu yn y sector gofal yn y gymuned/tu allan i ysbytai. Nododd Alex Howells fod cell Gofal Sylfaenol y Grŵp Ymateb i Argyfwng yn bodoli ac, er bod AaGIC ddim yn rhan o'r grŵp, y dylai unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r gweithlu gael eu cyfeirio at y Grŵp drwyddi hi. Hefyd, codwyd pryderon ynghylch capasiti AaGIC i ymdopi â gweithgarwch parhad busnes mewn ymateb i COVID-19, a'r galw cynyddol arno fel sefydliad galluogi'r gweithlu. Roedd nifer o raglenni a phrosiectau AaGIC wedi cael eu hatal dros dro o ganlyniad i COVID-19, oedd wedi creu rhywfaint o gapasiti ychwanegol i ymgymryd â gwaith newydd. Nodwyd bod nifer o staff wedi cael eu rhyddhau i wneud gwaith sesiynol er mwyn cefnogi'r rheng flaen yn sefydliadau eraill GIG Cymru. Cafodd trefniadau ychwanegol ar gyfer cofnodi absenoldeb staff eu rhoi ar waith yn AaGIC ac roedd tua 60 aelod o staff yn nodi fod ganddyn nhw symptomau, eu bod yn gofalu am aelod agos o'r teulu neu'n hunanynysu.	

DRAFT

	Nododd Tina Donnelly fod sgiliau trosglwyddadwy ar gael mewn meysydd fel y Lluoedd Wrth Gefn a bod ganddynt y potensial i ategu gweithlu'r GIG. Nododd Julie Rogers fod y Lluoedd Wrth Gefn yn fater sy'n cael ei reoli'n fewnol yn Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau dull cydlynus, ac fe gytunodd y byddai'n codi'r mater gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru.	
Penderfynwyd	Fe wnaeth y Bwrdd: • **nodi'r** adroddiad; • **cytuno** y byddai'r atodiad oedd ar goll yng nghyswllt blaenoriaethu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn cael ei ddosbarthu i Aelodau'r Bwrdd; • **gofyn** i Heidi Phillips anfon unrhyw faterion ynghylch y gweithlu gofal sylfaenol at Alex Howells er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu pasio ymlaen at gell Gofal Sylfaenol y Grŵp Ymateb i Argyfwng; • **gofyn** i Julie Rogers sicrhau bod unrhyw waith dadansoddi sgiliau sy'n ymwneud â chyn-filwyr, milwyr wrth gefn a gwirfoddolwyr yn cael eu codi gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru.	**DB** **HP** **JR**
2603/2.3.2	**Trefniadau Newydd y Bwrdd**	
	Fe wnaeth y Pwyllgor **dderbyn** yr adroddiad. Wrth gyflwyno'r adroddiad, nododd Dafydd Bebb fod y dull eisoes wedi cael ei ystyried yng Nghyfarfod Briffio'r Bwrdd ar 20 Mawrth 2020. Amlinellodd y newidiadau arfaethedig i drefniadau llywodraethu corfforaethol AaGIC mewn ymateb i Bandemig COVID-19. Pwysleisiodd fod y cynigion yn ceisio cael cydbwysedd rhwng galluogi AaGIC i lywodraethu mewn modd priodol, a pheidio ag amharu ar brosesau penderfynu mewn amgylchedd sy'n newid ac yn symud yn gyflym. Nododd y Bwrdd ei fod yn aros am lythyr gan Grŵp Ysgrifenyddion y Bwrdd, a ddylai roi rhagor o eglurder o ran defnyddio trefniadau llywodraethu corfforaethol y GIG yn ystod y cyfnod anodd hwn.	
Penderfynwyd	Fe wnaeth y Bwrdd **gymeradwyo**'r cynigion ar gyfer trefniadau llywodraethu corfforaethol AaGIC.	
2603/3	**EITEMAU STRATEGOL**	
2603/3.1	**Adroddiad Cynnydd ar Arweinyddiaeth ac Olyniaeth**	
	Fe wnaeth y Pwyllgor **dderbyn** yr adroddiad. Wrth gyflwyno'r adroddiad, nododd Julie Rogers fod yr adroddiad yn amlygu'r cynnydd yng nghyswllt y Rhaglen Arweinyddiaeth Dosturiol a'r Llif Gwaith Cynllunio ar gyfer Olyniaeth/Talent. O ganlyniad i effaith Pandemig COVID-19, mae'r Rhaglen wedi gorfod cymryd cam yn ôl am y 3 mis nesaf er mwyn blaenoriaethu gweithgarwch angenrheidiol yn ystod y pandemig. Roedd posibilrwydd o risg sylweddol yng nghyswllt cyflawni rhai o gerrig milltir y rhaglen o ganlyniad i effaith y pandemig ar sefydliadau'r GIG. Yn ystod y mis	

DRAFT

	nesaf, byddai proses adolygu ac ailflaenoriaethu yn cael ei chynnal yng nghyswllt cynllun rhaglen arweinyddiaeth Cynllun Tymor Canolig Integredig 2020/21. Nodwyd, er bod y rhan fwyaf o'r rhaglen wedi'i atal dros dro, y byddai gwaith yn parhau ar y porth arweinyddiaeth digidol, a fyddai'n golygu bod adnoddau'n gallu cael eu hychwanegu er mwyn helpu staff rheng flaen yn ystod y Pandemig. Gan ystyried y pwysau ar y gwasanaeth ar hyn o bryd, byddai angen dychwelyd at y broses ymgynghori ac ymgysylltu bresennol yng nghyswllt yr Egwyddorion Arweinyddiaeth Dosturiol cyffredinol, oedd i fod i ddod i ben ar 10 Ebrill 2020. I fodloni gofynion y gwasanaethau o fewn sefydliadau GIG Cymru, roedd sefydlu Grŵp Uwchgynhadledd Talent yn allweddol er mwyn bwrw ymlaen â rhaglen waith i ddatblygu'r model cynllunio ar gyfer olyniaeth a thalent. Mae cais wedi cael ei anfon at sefydliadau GIG Cymru i gynnig enwebiadau ar gyfer carfan 2020/21, heb gyfyngiad ar nifer yr enwebiadau. O 2021/22 ymlaen, bydd dull Unwaith i Gymru ar waith, gydag un broses genedlaethol â chanllawiau. Er bod y gwaith hwn wedi cael ei atal dros dro, roedd disgwyl iddo ailddechrau ym mis Medi 2020. Mae cynnydd da wedi cael ei wneud yng nghyswllt y cynllun peilot i brofi cysyniad yr Ateb o ran Rheoli Talent Digidol. Roedd y contract ar gyfer hyn yn cael ei gwblhau gyda Gwasanaethau a Rennir ar y pryd. Codwyd pryderon ynglŷn â'r broses enwebu a'r posibilrwydd y byddai unigolion yn cael eu hanghofio neu eu hanwybyddu. Esboniwyd y byddai'r enwebiadau yn dod gan Reolwyr y staff hynny oedd yn gweithio tuag at fod yn gyfarwyddwyr/dirprwyon ac y dylen nhw fod yn adnabyddus yn y sefydliad eisoes, yn ogystal â chael eu cymeradwyo gan dimau gweithredol. Fodd bynnag, byddai'r rhaglen a'r adnoddau arweinyddiaeth ar gael i bob unigolyn, a byddai'n cynnwys opsiwn hunangyfeirio. O ran costau, nodwyd bod achos busnes yn cael ei baratoi ar gyfer elfennau o'r rhaglen yn gyffredinol – yr enghraifft gliriaf o hyn oedd y canfyddiad bod angen ailsefydlu rhaglen graddedigion y GIG, ar gais penodol Llywodraeth Cymru. Roedd pob un o sefydliadau'r GIG yn buddsoddi mewn datblygu arweinyddiaeth a gallai hyn gael ei ailgyfeirio mewn blynyddoedd i ddod. Fodd bynnag, yn y tymor byr, byddai angen cynnal trafodaethau â Llywodraeth Cymru am ddarparu sylfaen ar gyfer y gwaith hwn.	
Penderfynwyd	Fe wnaeth y Pwyllgor **nodi**'r adroddiad.	

DRAFT

2603/4	**LLYWODRAETHU, PERFFORMIAD A SICRWYDD**	
2603/4.1	**Adroddiad Cyllid:**	
2603/4.1.1	**Y Sefyllfa ym Mis 11**	
	Fe wnaeth y Pwyllgor **dderbyn** yr adroddiad. Wrth gyflwyno'r adroddiad hwn, rhoddodd Eifion Williams yr wybodaeth ddiweddaraf yng nghyswllt y sefyllfa ariannol ar gyfer mis 11 2019/20, sef tanwariant o £445 flwyddyn i'r dyddiad. Y prif resymau am yr amrywiant yn y tanwariant oedd lleoedd gwag yn erbyn lefelau staffio roedd cyllideb cyflogau wedi'i neilltuo ar eu cyfer, a lleoliadau is na'r disgwyl mewn cyllidebau lleoliadau hyfforddi wedi'u comisiynu. Disgwylir y byddai sefyllfa ariannol gyffredinol AaGIC yn cael ei rheoli er mwyn bod mewn sefyllfa gytbwys ar ddiwedd y flwyddyn yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru. Amlygwyd bod £1.4 miliwn wedi cael ei ddychwelyd i Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth, ac y byddai hynny'n helpu AaGIC i symud yn nes at sefyllfa gytbwys erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, efallai na fydd y £1.049m o gyllid anghylchol a ddyfarnwyd i Brifysgolion wedi cael ei wario erbyn 31 Mawrth 2020. Felly, byddai'n rhaid ystyried hyn yn y sefyllfa ariannol ddiwedd y flwyddyn. Amlygwyd bod y sefydliad yn aros am anfonebau ar gyfer y mentrau/cynlluniau hyn yn ystod diwedd mis Mawrth/dechrau mis Ebrill ac y byddai'r sefyllfa'n cael ei monitro'n agos. Esboniwyd y sefyllfa yng nghyswllt y gwariant a'r dyraniad cyfalaf, ac yn benodol yng nghyswllt y trefniadau ar gyfer ariannu system e-bortffolio fferylliaeth, a'r TAW adferadwy. O ran Polisi Taliadau'r Sector Cyhoeddus, cadarnhawyd bod cydymffurfiad cyffredinol AaGIC wedi cynyddu rywfaint, i 95.2%, a'i fod o fewn y targed. Fe wnaeth y Bwrdd ystyried yr adroddiad, gan nodi'r rhesymau am yr amrywiadau i gynlluniau ariannol wedi'u proffilio, cyllid anghylchol i Brifysgolion a'r sefyllfa o ran cyfalaf. Rhoddwyd sicrwydd bod AaGIC yn gweithio gyda'i bartneriaid a'i gyflenwyr i gytuno ar y sefyllfaoedd o ran anfonebu ddiwedd y flwyddyn, a'r sefyllfa a ragwelir ar gyfer yr alldro ddiwedd y flwyddyn.	
Penderfynwyd	Fe wnaeth y Bwrdd **nodi**'r sefyllfa ar gyfer mis 11.	
2603/4.1.2	**Llythyr Dyrannu**	
	Fe wnaeth y Bwrdd **dderbyn** yr adroddiad. Wrth gyflwyno'r adroddiad, dywedodd Eifion Williams wrth y bwrdd, er bod AaGIC wedi rhoi cynllun ariannol pum mlynedd i Lywodraeth Cymru fel rhan o'i Gynllun Tymor Canolig Integredig, mai dim ond ar sail blwyddyn y cytunwyd ar y dyraniad cyllid.	

DRAFT

	Rhoddodd Eifion Williams drosolwg o'r amrywiadau ac esboniad o'r cysoni yn erbyn dyraniad refeniw AaGIC ar gyfer 2020/21, o'i gymharu â chynllun ariannol AaGIC a gyflwynwyd yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig (oedd yn cwmpasu'r cyfnod o 2020/21 i 2022/23). Codwyd pryderon yng nghyswllt yr adnoddau ychwanegol oedd yn cael eu hysgwyddo mewn ymateb i Bandemig y Coronafeirws. Esboniwyd, er bod Llywodraeth Cymru wedi nodi bod disgwyl i sefydliadau ymdopi o fewn eu hamlen ariannol eu hunain, y byddai sefydliadau GIG Cymru yn tracio'r gwariant ychwanegol cysylltiedig â gweithgarwch hanfodol i fusnes yn ystod y Pandemig. Disgwyliwyd y byddai Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r costau ychwanegol cysylltiedig â delio â COVID-19.	
Penderfynwyd	Fe wnaeth y Pwyllgor **nodi**'r adroddiad.	
26/03/4.2	**Adroddiad Perfformiad**	
	Fe wnaeth y Pwyllgor **dderbyn** yr adroddiad. Wrth gyflwyno'r adroddiad, nododd Julie Rogers, er bod y cyflawniad yn erbyn cerrig milltir y Cynllun Blynyddol a'r Llythyr Cylch Gwaith yn gadarnhaol ar y cyfan, roedd lledaeniad COVID-19 yn dechrau cael effaith ar gyflawniad mewn rhai meysydd. Roedd y rhain yn cynnwys gohirio'r Rhaglen Arweinyddiaeth, trosglwyddo Tîm y Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio a Strategaeth Datblygu Sefydliadol a Phobl AaGIC. Disgwyliwyd y byddai modd ailgydio yn y rhain erbyn yr hydref. Roedd dau brosiect coch ar hyn o bryd – roedd un wedi cael ei ohirio oherwydd recriwtio, ond roedd hyn wedi cael ei ddatrys erbyn hyn, a'r llall yn ymwneud â SIFT, sy'n dal yn 'goch' ac yn aros i Lywodraeth Cymru gymryd camau gweithredu. Aeth y Bwrdd ati i drafod yr adroddiad a nodi'r cynnydd a'r gwelliannau sylweddol sy'n cael eu gwneud o ran cofnodi. Disgwyliwyd y byddai cydymffurfiad â hyfforddiant statudol a gorfodol yn gwella'n sylweddol yn dilyn Pandemig COVID-19 ar gyfer yr adroddiad nesaf. Amlygwyd bod cyfarfod wyneb yn wyneb yn elfen sylweddol o'r broses PADR, fodd bynnag, byddai hyn yn heriol a byddai gwersi i'w dysgu yn dilyn y Pandemig. Fe wnaeth y Bwrdd groesawu'r adroddiad a diolch i'r Tîm am y cynnydd oedd yn cael ei wneud.	
Penderfynwyd	Fe wnaeth y Pwyllgor **nodi**'r adroddiad.	
2603/4.3	**Y Gofrestr Risg Gorfforaethol**	
	Fe wnaeth y Bwrdd **dderbyn** y Gofrestr.	

DRAFT

	Wrth gyflwyno'r Gofrestr, nododd Dafydd Bebb mai hwn fyddai'r gofrestr olaf ar y ffurf bresennol, a oedd yn gyson â Chynllun Blynyddol 2019/20. Ers y cyfnod adrodd diwethaf, roedd 26 risg ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Roedd y risgiau hyn wedi cael eu hasesu fel a ganlyn – un statws 'coch', 24 statws 'melyn' ac un statws 'gwyrdd'. Risg 28 – mae seiberddiogelwch yn risg statws 'coch' ar hyn o bryd, fodd bynnag, roedd disgwyl i hon gael ei hisraddio yn dilyn penodiad Pennaeth Seiberddiogelwch. Roedd disgwyl i'r cyfweliadau gael eu cynnal ar 30 Mawrth 2020. Amlygwyd bod Risg 10 – Telerau ac Amodau Bwrsari'r GIG – wedi cael ei ailasesu ers i benderfyniad Llywodraeth Cymru gael ei gadarnhau, a'i fod wedi'i israddio i statws 'gwyrdd'. Roedd dwy risg newydd wedi'u hasesu'n rhai 'melyn'. • Risg 32 – Effaith y Newidiadau i'r Llwybr Hyfforddiant Meddygaeth Mewnol; • Risg 22 – Effaith y Newidiadau i'r Llwybr Anestheteg. Roedd y Gofrestr Risgiau Corfforaethol, oedd yn gyson â Phandemig COVID-19, i fod i gael ei ystyried yn y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd nesaf oedd wedi'i drefnu ar gyfer 1 Ebrill 2020. Fe wnaeth y Bwrdd drafod yr adroddiad a bod angen sicrhau bod y Gofrestr Risgiau yn adlewyrchu effaith COVID-19, yn enwedig y risgiau cysylltiedig â symud tuag at amgylchedd mwy digidol a gweithio gartref yn gyfan gwbl.	
Penderfynwyd	Fe wnaeth y Bwrdd **gymeradwyo** cael gwared â'r risg 'gwyrdd'.	
2603/4.4	**Adroddiadau ar Faterion Allweddol gan Bwyllgorau**	
2603/4.4.1	**Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2020**	
	Fe wnaeth y Bwrdd **dderbyn** yr adroddiad materion allweddol. Wrth gyflwyno'r adroddiad, dywedodd Gill Lewis wrth y bwrdd fod yr adroddiad yn cefnogi'r diweddariad llafar a roddwyd i'r Bwrdd yn ei gyfarfod fis Ionawr.	
Penderfynwyd	Fe wnaeth y Bwrdd **nodi** a **chadarnhau**'r adroddiad.	
2603/4.5	**Penderfyniadau**	
	Fe wnaeth y bwrdd **dderbyn** a **chadarnhau**'r adroddiad a oedd yn nodi'r prif faterion a drafodwyd 'mewn pwyllgor' yng nghyfarfod y Bwrdd fis Rhagfyr.	
2603/5	**MATERION ERAILL**	
2603/5.1	**Unrhyw Faterion Brys Eraill:**	
2603/5.1.1	**Adroddiad Blynyddol AaGIC ar Gydraddoldeb 2018/19**	
	Fe wnaeth y Pwyllgor **dderbyn** yr adroddiad.	

DRAFT

	Wrth gyflwyno'r adroddiad, nododd Julie Rogers fod y gwaith adrodd yn cydymffurfio â dyletswydd y sector cyhoeddus o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 (gelwir y rhain hefyd yn 'Ddyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru') i lunio a chyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu 6 mis cyntaf gweithredol AaGIC yn ystod 2018/19 ac yn dangos bod AaGIC wedi ymrwymo'n gadarn i gydraddoldeb a chynhwysiant, a bod hynny'n rhan greiddiol o'i fusnes.	
Penderfynwyd	Fe wnaeth y Bwrdd: • **nodi'r** adroddiad; • **cymeradwyo** cyhoeddi'r adroddiad erbyn 31 Mawrth 2020.	
2603/5.1.2	**Adrodd ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau yn AaGIC**	
	Fe wnaeth y Pwyllgor **dderbyn** yr adroddiad. Wrth gyflwyno'r adroddiad, nododd Julie Rogers fod y gwaith adrodd yn cydymffurfio â dyletswydd AaGIC yn y sector cyhoeddus o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Gwybodaeth am y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau) 2017 i gyhoeddi cyfrifiadau bob blwyddyn yn dangos y bwlch rhwng cyflogau ei gyflogeion gwrywaidd a benywaidd. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu 6 mis gweithredol cyntaf AaGIC yn ystod 2018/19 ac yn rhoi ciplun o hynny. Cydnabuwyd bod angen gwneud mwy o waith i ddeall y bylchau rhwng cyflogau mewn rhagor o fanylder ac i ystyried a oedd angen cymryd camau i fynd i'r afael â'r meysydd a nodwyd. Cydnabuwyd bod tua 50% o weithlu AaGIC yn staff clinigol a'u bod yn gymwys i gael Taliadau'r Dyfarniad Rhagoriaeth Clinigol, oedd yn cael effaith ar y sefyllfa o ran cyflog. Fodd bynnag, roedd hyn y tu hwnt i reolaeth a dylanwad AaGIC oherwydd bod trefniadau cyflog yn cael eu pennu'n genedlaethol ac yn cael eu gosod gan Weinidogion Cymru.	
Penderfynwyd	Fe wnaeth y Bwrdd: • **nodi'r** adroddiad; • **cytuno** y dylid ychwanegu brawddeg/paragraff at yr adroddiad er mwyn rhoi cyd-destun yng nghyswllt y nifer sylweddol o staff clinigol/meddygol sydd, o gymharu â niferoedd cyffredinol y gweithlu, a'u cymhwysedd ar gyfer y cynllun cenedlaethol y Dyfarniadau Rhagoriaeth Glinigol; • **cymeradwyo** cyhoeddi'r adroddiad erbyn 30 Mawrth 2020.	**JR**
2603/5.2	**Dyddiadau'r Cyfarfodydd Nesaf**	
	Derbyniwyd dyddiadau cyfarfodydd nesaf y Bwrdd: • **Sesiwn ar Ddatblygu Bwrdd** AaGIC i gael ei gynnal ar **30 Ebrill 2020** drwy Skype/Telegynhadledd • **Bwrdd** AaGIC i gael ei gynnal ar **28 Mai 2020** drwy Skype/Telegynhadledd	

DRAFT

2603/5.3	**Cau**	
	Gan nad oedd materion brys eraill ar gyfer y sesiwn agored, symudodd y cyfarfod i'r sesiwn caeedig.	

....

Chris Jones (Cadeirydd) Dyddiad:

DRAFT

Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

Bwrdd AaGIC (Agored)
26 Mawrth 2020

(Mae'r Daflen Weithredu hefyd yn cynnwys camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfodydd blaenorol Bwrdd Agored AaGIC ac sydd eto i'w cwblhau neu eu trafod gan y Pwyllgor yn y dyfodol. Mae'r rhain wedi'u hamlygu yn yr adran gyntaf. Pan fydd y Bwrdd wedi rhoi sêl bendith i'r camau gweithredu hyn, byddant yn cael eu tynnu oddi ar y daflen weithredu.)

Cyfeirnod y Cofnod	Camau a Gytunwyd	Arweinydd	Dyddiad Targed	Cynnydd/ Wedi cwblhau
2603/1.5	**Cofnod Gweithredu**			
	• **3001/2.1 Adroddiad y Cadeirydd:** Rhannu llythyr arfarnu'r Cadeirydd ag Aelodau'r Bwrdd pan ddaw i law	**Cadeirydd**	I'w gadarnhau	Aros am lythyr arfarnu gan Swyddfa'r Gweinidog.
2603/2.1	**Adroddiad y Cadeirydd**			
	• Edrych ar y posibilrwydd o ddefnyddio rhaglen 'Zoom' gyda Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a Thîm Digidol a TG AaGIC.	**Ysgrifennydd y Bwrdd**	Cyn pen 2 wythnos	Wedi Cwblhau. Oherwydd diogelwch a rheoliadau GDPR, mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wedi cadarnhau na ddylai staff ddefnyddio meddalwedd fideogynadledda Zoom ar gyfrifiaduron y GIG. Y rhaglenni fideogynadledda y cytunir arnynt yw 'Skype for Business' a 'Microsoft Teams'. Bydd Microsoft Teams yn cael ei gyflwyno i AaGIC gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru maes o law.
2603/2.3.1	**Coronafeirws: Diweddariad y Prif Weithredwr**			
	• Dosbarthu'r atodiad oedd ar goll yng nghyswllt blaenoriaethu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig i Aelodau'r Bwrdd.	**Ysgrifennydd y Bwrdd**	Cyn pen 1 wythnos	Wedi Cwblhau.

Cyfeirnod y Cofnod	Camau a Gytunwyd	Arweinydd	Dyddiad Targed	Cynnydd/ Wedi cwblhau
	• Heidi Phillips i anfon unrhyw faterion ynghylch y gweithlu gofal sylfaenol at Alex Howells er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu pasio ymlaen at gell Gofal Sylfaenol y Grŵp Ymateb i Argyfwng	**Heidi Phillips**	I'w gadarnhau	Rhoddir diweddariad ar lafar yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mai.
	• Julie Rogers i sicrhau bod unrhyw waith dadansoddi sgiliau sy'n ymwneud â chyn-filwyr, milwyr wrth gefn a gwirfoddolwyr yn cael eu codi gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru.	**Cyfarwyddwr y Gweithlu a'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau**	Cyn pen 1 wythnos	Wedi Cwblhau.
2603/5.1.2	**Adrodd ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau yn AaGIC**			
	• Ychwanegu brawddeg/paragraff at yr adroddiad er mwyn rhoi cyd-destun yng nghyswllt y nifer sylweddol o staff clinigol/meddygol sydd, o gymharu â niferoedd cyffredinol y gweithlu, a'u cymhwysedd ar gyfer y cynllun cenedlaethol y Dyfarniadau Rhagoriaeth Glinigol.	**Cyfarwyddwr y Gweithlu a'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau**	Cyn pen 1 wythnos	Wedi Cwblhau.

Dyddiad Cyfarfod	**28 Mai 2020**	**Eitem Agenda**	**2.1**
Teitl Adroddiad	**Adroddiad y Gadair**		
Awdur Adroddiad	Dr Chris Jones, Cadeirydd		
Noddwr Adroddiad	Dr Chris Jones, Cadeirydd		
Cyflwynwyd gan	Dr Chris Jones, Cadeirydd		
Rhyddid Gwybodaeth	Agored		
Camau penodol sydd eu hangen	Mae'r adroddiad yma er gwybodaeth yn unig		

Adroddiad y Cadeirydd

1. DIBEN YR ADRODDIAD

Diben yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am yr ystod o weithgareddau a chyfarfodydd a gynhaliwyd gan Gadeirydd, yr Is-gadeirydd a Chadeiryddion Pwyllgor Archwilio AaGIC, a Phwyllgor Addysg, Comisiynu ac Ansawdd, ers y cyfarfod diwethaf o'r Bwrdd**.**

2. GWEITHGAREDDAU A CHYFARFODYDD Y CADEIRYDD

Gyda chymeradwyaeth a chefnogaeth y Bwrdd ym mis Mawrth, mae Alex Howells, ein Prif Weithredwr, wedi bod yn gweithredu fel Dirprwy Brif Weithredwr y GIG i gefnogi Dr Andrew Goodall, y Cyfarwyddwr Cyffredinol. Er bod Alex wedi parhau i fod yn ymwneud yn agos ag AaGIC fel y Swyddog Atebol, Julie Rogers, ein Dirprwy Brif Weithredwr, sydd wedi goruchwylio'r gwaith o redeg y sefydliad o ddydd i ddydd. Dw i'n cael cyfarfodydd Skype gydag Alex a gyda Julie ddwywaith yr wythnos o leiaf. Rwy'n ddiolchgar iawn i Alex a Julie ynghyd â'r tîm gweithredol am y ffordd effeithiol a phroffesiynol y rheolwyd hyn. Hoffwn gydnabod yr ynni a'r cyfraniad effeithiol y mae hyn wedi'i alluogi i'r GIG.

Gan weithio gydag Ysgrifennydd y Bwrdd, rydym wedi datblygu trefniadau ar gyfer llywodraethu'r Bwrdd a chyfathrebu ynghylch penderfyniadau a dadleuon y Bwrdd i ymdrin â'r cyfnod hwn o amgylchiadau eithriadol. Bydd sicrwydd, goruchwyliaeth a chyfranogiad y Bwrdd yn parhau drwy gydol y broses. Mae'r holl gyfarfodydd yn cael eu cynnal drwy Skype neu Microsoft Teams a diolch go iawn i'n tîm cymorth technegol am alluogi hyn i ddigwydd.

Mae wedi bod yn galonogol gweld pa mor effeithiol a threfnus y mae'r cyfarfodydd wedi cael eu cynnal. Wrth symud ymlaen, rwy'n siŵr ein bod i gyd wedi dysgu llawer am weithio o bell a phwysigrwydd aros yn gysylltiedig. Rwyf wedi parhau â'm cyfarfodydd un i un bob dwy wythnos â'r tîm gweithredol a deoniaid deintyddiaeth fferyllfa a meddygaeth ôl-raddedig. Rwyf hefyd wedi gallu ymuno â chyfarfodydd gwahanol dimau, yn cynnwys Cyllid, Fferylliaeth, Nyrsio, Cyfathrebu, Meddygaeth ôl-raddedig a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

Ar 21 Mai 2020 ymunais â Fforwm Agored Rhithwir i staff, a fynychwyd gan dros 100 o gydweithwyr. Mae'n amlwg iawn bod agenda fusnes brysur iawn, ond bûm hefyd yn dyst i ddiwylliant gwych o gefnogi ac annog cydweithwyr ac arweinyddiaeth dda. Cynhelir sgyrsiau Skype un i un bob wythnos gyda holl Aelodau'r Bwrdd, gan ein galluogi i rannu gwybodaeth a chydlynu a thrafod materion sy'n dod i'r amlwg. Mae John Hill-Tout, yr Is-gadeirydd, a fi yn siarad ddwywaith yr wythnos, gan sicrhau y caiff gwybodaeth ei rhannu a'i dadfriffio yn dilyn ein cyfarfodydd cenedlaethol perthnasol. Mynychais gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd a chyfarfod o'r Pwyllgor Comisiynu ac Ansawdd Addysg yn ystod y cyfnod adrodd. Cefnogwyd y ddau gyfarfod gan bapurau rhagorol ac roeddent yn cael eu rhedeg yn dda ac yn broffesiynol – dim diffygion technegol!

Ceir patrwm sefydledig o AaGIC yn darparu sesiynau briffio wythnosol a'r wybodaeth ddiweddaraf a rennir yn fewnol a chyda phartneriaid. Mae'r rhain yn llawn gwybodaeth ac yn dangos yr holl waith sy'n cael ei wneud. Hoffwn ddiolch

i'n tîm cyfathrebu am eu hymdrechion clodwiw wrth gefnogi proffil a negeseuon y sefydliad. Rwyf wedi cael cyfarfodydd drwy delegynadledda gyda Chadeirydd y GMC a hefyd gyda Chadeirydd a Phrif Swyddog Gweithredol Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae Cadeiryddion y GIG wedi bod yn cyfarfod drwy ddefnyddio telegynadledda ac maent yn cynnal cyfarfodydd briffio bob pythefnos. Mae Cadeiryddion wedi derbyn adroddiadau llawn mewn perthynas ag effaith yr achosion a'r ymateb ac wedi cyfnewid gwybodaeth am y sefyllfa yn ardaloedd y Byrddau Iechyd Lleol (BILl) ledled Cymru. Rwy'n mynychu cyfarfod briffio wythnosol Cadeiryddion a Phrif Swyddogion y GIG gyda Vaughn Gething, y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ac Andrew Goodall – wedi ei ffocysu ac yn llawn gwybodaeth, gan ymdrin â'r materion a'r heriau allweddol.

Ers i'r achos ddechrau, mae'r Is-gadeiryddion wedi bod yn cyfarfod drwy delegynadledda ac maent yn cynnal cyfarfodydd briffio bob pythefnos. Mae Is-gadeiryddion wedi derbyn adroddiadau llawn mewn perthynas ag effaith yr achosion a'r ymateb ac wedi cyfnewid gwybodaeth am y sefyllfa yn ardaloedd y Byrddau Iechyd Lleol ledled Cymru. Mae John a minnau wedi briffio cydweithwyr ar y cynlluniau a'r camau a gymerwyd gan AaGIC. O ystyried cyfrifoldeb penodol Is-gadeiryddion mewn perthynas â Gwasanaethau Iechyd Meddwl, cafwyd papur briffio gan yr Arweinydd Iechyd Meddwl Cenedlaethol ar effaith yr epidemig ar gleifion iechyd meddwl presennol, y cynnydd mewn amseroedd aros, a'r camau sy'n cael eu cymryd i addasu gwasanaethau yn yr wythnosau a'r misoedd i ddod. Bydd John yn parhau i gynrychioli AaGIC yn y sesiynau briffio bob pythefnos.

Gyda'n gilydd, gwnaethom ymuno â chyfarfod digidol ar gyfer Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, a drefnwyd gan Gydffederasiwn GIG y DU ar 11 Mai, a roddodd gyfle i rannu ymatebion lleol i'r pandemig. Cafwyd cyfraniadau gan Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, ac ystyriodd y cyfarfod sut y dylid addasu trefniadau llywodraethu, partneriaeth a rheoleiddio i fabwysiadu'r hyn a ddysgwyd yn ystod y pandemig. Roedd ymdeimlad cryf y dylai'r ynni, y creadigrwydd, y partneriaethau newydd a'r arweinyddiaeth hyblyg gael eu cynnwys yn ein fframweithiau llywodraethu wrth i ni ail-leoli'r GIG yn yr wythnosau sydd i ddod.

Ar ddydd Mercher, aeth John a minnau i telegynhadledd o dîm y GIG yng Nghymru lle'r oedd y Gweinidog a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn myfyrio ar y gwaith aruthrol a wneid o fewn y GIG a'r partneriaethau ledled Cymru i ddelio gyda her COVID-19. Trafodwyd materion allweddol ailosod a'r posibiliadau o ail don. Trafodwyd prawf, trac ac olrhain, yn ogystal â phwysigrwydd cynllunio ar gyfer y gaeaf. Roedd pob sefydliad wedi cyflwyno eu hymatebion i fframwaith gweithredol Chwarter1. Roedd myfyrdod cyffredinol ar heriau a chyfleoedd yn y dyfodol i ailsefydlu yn unol â Chymru Iachach, tra'n myfyrio ar y golled drist o fywydau yn y boblogaeth, yn cynnwys gweithwyr iechyd a gofal. Adlewyrchwyd iechyd a lles staff a phwysigrwydd arweinyddiaeth yn y misoedd i ddod hefyd.

Er bod prif ffocws sefydliadau'r GIG wedi cael ei lywio, wrth gwrs, gan y pandemig COVID-19, rydym bellach wedi dechrau canolbwyntio ar y dyfodol agos ac effeithiau tymor hwy ar gyfer ein busnes craidd. Mae'r cynllun tymor canolig integredig a'r fframwaith gweithredu Chwarter1 yn eitemau allweddol ar yr agenda heddiw.

Ers y Bwrdd diwethaf, mae'r Athro Peter Donnelly wedi ymddeol o AaGIC. Mae Peter wedi bod yn ddylanwad mawr ar Addysg Feddygol ôl-raddedig dros nifer o flynyddoedd ac yn flaenorol ef oedd ein Deon Dros dro. Mae wedi datblygu ein hagenda Addysg Ryngwladol.

Ar ran y Bwrdd hoffwn ddiolch iddo a dymuno iechyd a hapusrwydd iddo ar gyfer y dyfodol.

Mae heddiw hefyd yn nodi ymddeoliad Stephen Griffiths ein Cyfarwyddwr Nyrsio. Mae cyfraniad Stephen i'r GIG yng Nghymru ac i ddatblygiad AaGIC wedi bod yn aruthrol.

Mae'n gyfnod heriol i'n cenedl, ac yn dod â gwahanol raddau o ansicrwydd a straen. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi a galluogi cydweithwyr yn y rheng flaen i gyflawni eu rolau, gan gefnogi ein staff, cefnogi ein myfyrwyr a'n hyfforddeion. Rydym wedi arwain y sgwrs genedlaethol ynghylch arweinyddiaeth dosturiol ac wedi datblygu strategaeth ar gyfer y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol. Ni fu erioed angen mwy taer i ni ofalu am y gweithlu, ei les ac i ni i gyd fod yn garedig ac yn ystyriol o eraill. Wrth i'r her benodol hon leihau, bydd angen i AaGIC fod yno i ailafael yn ei rôl wrth helpu i wella'r GIG a'r system gofal ar gyfer Cymru. Byddwn yn cael y cyfle i ddysgu gwersi a helpu i barhau i weddnewid ac ailsefydlu gwasanaethau. Byddwn mewn sefyllfa i helpu i gyflawni dyheadau Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol, Cymru lachach a galluogi ein gweithlu yn y dyfodol.

Governance and Assurance			
Cyswllt ag amcanion strategol yr IMTP **(✓ ogydd)**	**Amcan Strategol 1:** Arwain y gwaith o gynllunio, datblygu a sicrhau gweithlu cymwys, cynaliadwy a hyblyg i helpu i gyflawni 'Cymru Iachach'	**Amcan Strategol 2:** Gwella ansawdd a hygyrchedd addysg a hyfforddiant i'r holl staff gofal iechyd gan sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y dyfodol	**Amcan Strategol 3:** Gweithio gyda phartneriaid i ddylanwadu ar newid diwylliannol o fewn GIG Cymru drwy feithrin gallu i arwain yn dosturiol ac ar y cyd ar bob lefel
			✓
	Nod Strategol 4: I ddatblygu'r gweithlu i gefnogi'r gwaith o gyflawni diogelwch ac ansawdd	**Nod Strategol 5:** Bod yn gyflogwr enghreifftiol ac yn lle gwych i weithio	**Nod Strategol 6:** I gael ein cydnabod fel partner rhagorol, yn ddylanwadwr ac arweinydd
		✓	✓

Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf	
Nid oes unrhyw faterion o ansawdd, diogelwch cleifion a phrofiad uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.	
Goblygiadau Ariannol	
Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i'r adroddiad hwn	
Goblygiadau Cyfreithiol (gan gynnwys asesiad o gydraddoldeb ac amrywiaeth)	
Nid oes unrhyw oblygiadau cyfreithiol uniongyrchol i'r adroddiad hwn.	
Goblygiadau Staffio	
Nid oes unrhyw oblygiadau staffio uniongyrchol i'r adroddiad hwn.	
Goblygiadau Tymor Hir (gan gynnwys effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015)	
Bydd yr ystod o weithgareddau a amlinellir yn yr adroddiad yn cyfrannu at ymagwedd AaGIC at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Fodd bynnag, bydd y cyfraniadau'n benodol i bob un o'r meysydd unigol a drafodir mewn trosolwg yn yr adroddiad hwn.	
Hanes yr Adroddiad	d/d
Atodiadau	d/d

Dyddiad y Cyfarfod	**28 Mai 2020**	**Eitem ar yr Agenda**	**2.2**
Teitl yr Adroddiad	**Adroddiad y Prif Weithredwr – Mai 2020**		
Awdur yr Adroddiad	**Dafydd Bebb, Ysgrifennydd y Bwrdd**		
Noddwr yr Adroddiad	Alex Howells, Prif Weithredwr		
Cyflwynwyd gan	Alex Howells, Prif Weithredwr		
Rhyddid Gwybodaeth	Agored		

ADRODDIAD Y PRIF WEITHREDWR – MAI 2020

1. CYFLWYNIAD

Pwrpas yr adroddiad hwn yw diweddaru'r Bwrdd ar weithgareddau allweddol yr ymgymerwyd â nhw ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd a gosod y cyd-destun ar gyfer nifer o faterion sy'n cael sylw manylach yn adroddiadau'r Cyfarwyddwyr Gweithredol fel rhan o fusnes y Bwrdd. Mae'r ymateb i COVID-19 yn dal i reoli ein gwaith. Mae nifer o feysydd wedi'u gohirio neu eu hoedi.

2. GWEITHGAREDDAU ALLWEDDOL

- **Secondiad y Prif Weithredwr i Lywodraeth Cymru**

Ers 1 Ebrill rwyf wedi bod yn cefnogi ymateb Llywodraeth Cymru i COVID-19 fel Dirprwy Brif Weithredwr GIG Cymru ar sail interim, ac rwy'n ddiolchgar am y cymorth rwyf wedi'i gael i wneud hyn gan Julie Rogers, Dirprwy Brif Weithredwr AaGIC, a gan y Cadeirydd. Rydym yn dal yn cynnal cyfarfodydd y Tîm Gweithredol bob wythnos yn ôl yr arfer, ac yn cynnal cyfarfodydd yr Uwch Dîm Arwain bob mis. Mae cynnal y pwyntiau cyswllt allweddol hyn wedi bod yn rhan bwysig o barhau â'r trefniadau llywodraethu da sydd wedi datblygu, ac o sicrhau cyfathrebu effeithiol yn ystod y sefyllfa hon o weithio o gartref.

- **Y Cyfarwyddwyr Nyrsio yn Ymddeol**

Hwn fydd cyfarfod olaf Stephen Griffiths, ein Cyfarwyddwr Nyrsio, gan ei fod yn ymddeol ar 29 Mai.

Mae Stephen yn gadael gwaddol ardderchog i'n sefydliad, yn ogystal ag enw eithriadol ymysg cynifer o staff a phartneriaid. Rwy'n siŵr y bydd y Bwrdd yn ymuno â mi wrth ddiolch i Stephen am ei gyfraniad enfawr i'r GIG dros y blynyddoedd, ac wrth ddymuno'r gorau iddo ef a'i deulu yn y dyfodol.

Rydym wrthi'n chwilio am Gyfarwyddwr Nyrsio dros dro nes ein bod yn penodi Cyfarwyddwr Nyrsio parhaol.

- **Coronafeirws**

Mae AaGIC wedi parhau i ymateb i COVID-19 drwy gynllun gweithredu clir a chyfarfodydd rheolaidd o'r Tîm Rheoli Argyfwng.

Mae amrywiaeth eang o waith wedi cael ei wneud, fel y gellir ei weld yn yr eitem ddiweddarach ar agenda'r Bwrdd. Wrth i ni symud i gam 2, rydym wedi adolygu a llacio rhai o'n trefniadau ymateb yn unol â sefydliadau eraill. Bydd cyfarfodydd y tîm rheoli argyfwng a bwletinau'r Bwrdd bellach yn digwydd bob pythefnos.

Mewn ymateb i Fframwaith Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Ch1, cafodd cynlluniau gweithredol lleol AaGIC ar gyfer gweddill mis Mai a mis Mehefin eu cyflwyno ar ffurf drafft i Lywodraeth Cymru ar 18 Mai 2020, ac maen nhw wedi'u cynnwys ar agenda'r Bwrdd hefyd. Pwrpas y fframwaith yw galluogi sefydliadau'r

GIG i ddechrau paratoi ar gyfer y "normal newydd", gan wneud cynnydd gofalus tuag at adfer gwasanaethau a rhaglenni gwaith.

- **Cynllun Tymor Canolig Integredig**

Mae cymeradwyaeth ffurfiol y Cynllun Tymor Canolig Integredig wedi cael ei hoedi o ganlyniad i bandemig COVID-19.
Fel y cytunwyd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth, mae'r gwaith o weithredu amcanion Cynllun Tymor Canolig Integredig AaGIC wedi cael ei oedi ar y cyfan yn Ch1, i alluogi'r sefydliad i ganolbwyntio ei adnoddau ar gefnogi ymateb y GIG i COVID-19.

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, rydym wedi dechrau adolygu Cynllun Tymor Canolig Integredig AaGIC ar gyfer Ch2 a thu hwnt. Rydym hefyd wedi gofyn i staff, fel rhan o'r broses hon, i wneud yn siŵr bod unrhyw wersi a ddysgwyd yn sgil y pandemig yn cael eu cofnodi. Mae hyn yn cynnwys gwreiddio ffyrdd newydd o weithio sydd wedi bod yn fuddiol, yn ogystal â chydnabod anghenion addysg a hyfforddiant y 'normal newydd' ar gyfer y GIG. Mae'r broses hon yn parhau a bydd yn cynnwys Strategaeth y Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Mae papur ar wahân ar yr agenda'n darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am adolygiad o'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, y rhaglen waith ddiwygiedig, a Chynllun Adnoddau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig.

- **Diweddariad ar Gynllun Addysg, Comisiynu a Hyfforddiant Blynyddol 2021/22**

Mae'r broses o ddatblygu'r cynllun Addysg, Comisiynu a Hyfforddiant wedi dechrau. Mae cyflwyniad ar brif faterion a themâu'r cynllun wedi cael ei ddosbarthu i randdeiliaid allweddol i gael sylwadau a thrafodaeth amdano, gan gydnabod nad oes modd defnyddio'r ffyrdd arferol o ddatblygu'r cynllun eleni. Bydd fersiwn derfynol y cynllun yn cael ei hystyried am gymeradwyaeth yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Addysg a Chomisiynu fis Gorffennaf, cyn ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru ei hystyried. Mae copi o'r cyflwyniad wedi'i gynnwys ar agenda'r Bwrdd heddiw.

- **Adroddiad Perfformiad Diwedd Blwyddyn**

Mae ein hadroddiad perfformiad diwedd blwyddyn cyntaf wedi'i gynnwys ar yr agenda. Bydd hwn yn sail i'n Hadroddiad Blynyddol yn nes ymlaen yn y flwyddyn. Ar hyn o bryd mae'r trefniadau rheoli perfformiad â Llywodraeth Cymru yn dal yn drefniadau ysgafn, sy'n golygu bod y cyfarfodydd y Tîm Gweithredol ar y Cyd wedi'u gohirio tan yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

- **Proses Ymgynghori'r Cynllun Iaith Gymraeg**

Cafodd y Bwrdd adroddiad ym mis Ionawr a oedd yn cadarnhau bod Comisiynydd y Gymraeg wedi gofyn i AaGIC Iunio Cynllun Iaith Gymraeg. Mae papur ar wahân sy'n amlinellu'r Cynllun drafft, ynghyd â phroses gysylltiedig yr ymgynghoriad cyhoeddus, wedi'i gynnwys ar yr agenda.

- **Tendro Contractau Addysg Gweithwyr Iechyd Proffesiynol**

O ganlyniad i effaith Coronafeirws, rydym wedi gorfod gohirio'r amserlen wreiddiol ar gyfer tendro Contractau Addysg Gweithwyr Iechyd Proffesiynol. Yn wreiddiol, roedd hyn i fod i ddigwydd ym mis Mai/Mehefin 2020. Gellir cadarnhau mai'r dyddiad 'mynd yn fyw' yw mis Medi 2022 o hyd, a hynny ar sail amserlen ddiweddaraf y broses tendro.

- **Diwygiadau i'r Amserlen Adroddiadau Flynyddol**

Mae Cyfrifon Terfynol Drafft 2019-20 yn cael eu hystyried ar yr agenda. Yn unol â chanllawiau diwygiedig Llywodraeth Cymru, bydd fersiynau terfynol y Cyfrifon Terfynol, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr a'r Adroddiad Staff a Thaliadau yn cael eu ffeilio ar neu cyn 30 Mehefin.

I gefnogi'r dyddiadau ffeilio newydd, mae cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd wedi cael ei drefnu ar gyfer 26 Mai, yn ogystal â chyfarfod ychwanegol o'r Bwrdd ar gyfer 28 Mai.

- **Risg**

Roedd wyth risg ar yr agenda ac o'r rheini mae'r ddau isod yn goch:

- Effaith yr ymateb i COVID-19 ar raglenni addysg a hyfforddiant, ac ar gynnydd a chanlyniadau myfyrwyr, a
- Seiberddiogelwch.

3. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r adroddiad hwn.

Llywodraethu a Sicrwydd			
- Manual Handling

- Risk Assessment
- Control of Contractors
- Young Persons
- Incident Reporting
- Electrical Equipment & PAT testing
- Travelling for Work

Risk Assessments

A risk assessment procedure was implemented during the year.

There were 2 internal assessments recorded (Risk Assessments completed by HEIW Staff): Ty Dysgu Building, Litter Picking Event.

There were 2 external risk assessments recorded (Risk assessments required by law and completed by external subcontractors with actions for remedial works.) The fire risk assessment resulted in 13 actions required for compliance, of which all have subsequently been completed. The Water Hygiene risk assessment resulted in 8 actions for compliance, of which all have subsequently been completed.

END

Health Education and Improvement Wales
Performance Dash Board (2019/20)

Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

HEIW Strategic Objectives as at Mar-20

Health Education and Improvement Wales - Remit Letter 2019-20		
RED	AMBER	GREEN
0	0	6

Obj1: As a new organisation establishing HEIW as a valued and trusted partner, an excellent employer and a reputable and expert brand		
RED	AMBER	GREEN
0	0	2

Obj2: Building a sustainable and flexible health and care workforce for the future		
RED	AMBER	GREEN
0	3	3

Obj3: With Social Care Wales shaping the workforce to deliver care closer to home and to better align service delivery		
RED	AMBER	GREEN
1	0	2

Obj4: Improving quality and safety by supporting NHS organisations find faster and more sustainable workforce solutions for priority service delivery challenges		
RED	AMBER	GREEN
0	6	0


Obj5: Improving opportunities for use of technology and digitalisation in the delivery of education and care		
RED	AMBER	GREEN
0	3	0

Obj6: Reinvigorating leadership development and succession planning across health and social care in partnership with Social Care Wales and Academi Wales		
RED	AMBER	GREEN
0	3	0


Obj7: Demonstrating value from investment in the workforce and the organisation		
RED	AMBER	GREEN
1	0	0

Departmental Information

Annual Review Of Competency Progression (Apr19 - Mar 20)




№ of Medical Appraisals Completed Apr19-Mar20




№ Completed Revalidation Review Visits this cycle: 15

Quality Management: Targeted Visits - Mar-20



Professional Support Unit (Mar-20)



Active Cases: 369


Referrals to Hammet Street: 90

People Team (Mar-20)

Disciplinary & Grievance: 0


№ Complaints: 0

Trainee Progression Governance: № of Reviews




Total number of Hearings	2018	2019	2020
	4	4	0

Face to Face & Online CPD Activity (Top 3 Dept. Actual Attendees) : Apr19-Mar20




Online Communication / Engagement (Mar-20)


Twitter: № Followers



Facebook: № Page likes



RSU Online page hits: as at Mar-20



HEIW Workforce Performance Metrics - March 2020


Staff in Post

Headcount

406

Updated Mar-19	Change
376	▲30

Monthly Staff Change between Apr-19 to Mar-20



Turnover


12 Month Rolling

9.5%

№ of Post Advertised Mar-20

Posts:	8
FTE:	6.9

FTE Days Lost by Sickness Reason (Apr19-Mar20)



12 month Sickness

Sickness

Sickness

2.6%

NHS Wales Target

4.3%


Short Term sickness




FTE Days Lost

Short term :	560.21
Long term:	1430.79


Performance Targets: Apr-19 vs Mar-20



Finance PSPP (Non-NHS Invoices)



№ completed FOI requests Apr19-Mar20



Equality Data



Apr-19

45.9%


Welsh Language




Apr-19

22.8%


PADR and Statutory & Mandatory: Apr19-Mar20



Agency as percentage of Total Pay



Financial Position: Cumulative Underspend (Mar-20)



Health and Safety

Mandatory Training (Mar-20)

Fire Safety	54.9%
Health & Safety	59.8%


№ of Incidents Apr19-Mar20	6

Recruitment to Commissioned Places (Recruitment Rate) - Mar-20


Medical	Primary Care	Dental	Pharmacy	Nursing & Midwifery	AHPs	Health Care Scientists
80%	117%	93%	99%	97%	98%	96%
Last Year's 78%	Last Year's 99%	Last Year's 99%	Last Year's 97%	Last Year's 93%	Last Year's 98%	Last Year's 99%

Benchmarking Information - 2019

GMC National Trainee Survey - Overall Satisfaction Scores (2019)



Pre-registration trainee pharmacists - Pass rate



Staff Survey 2019

Engagement Index

3.88

NHS Wales = 3.82/5

Response Rates

HEIW **48%**

NHS Wales 29%

Health Needs Assessment Score 2019

The Engagement Index (out of 5)

3.97

Response Rate

45%

Dyddiad y Cyfarfod	**28 Mai 2020**	**Eitem ar yr Agenda**	**4.4**
Teitl yr Adroddiad	**Yr Iaith Gymraeg - y Sefyllfa Ddiweddaraf**		
Awdur yr Adroddiad	Huw Owen, Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg		
Noddwr yr Adroddiad	Dafydd Bebb, Ysgrifennydd y Bwrdd		
Cyflwynwyd gan	Dafydd Bebb, Ysgrifennydd y Bwrdd		
Rhyddid Gwybodaeth	Agored		
Pwrpas yr Adroddiad	I roi diweddariad ar fabwysiadu Cynllun Iaith Gymraeg a chael cymeradwyaeth y Bwrdd i'r broses ymgynghori gyhoeddus ar yr un mater.		
Materion allweddol	• Diweddariad ar ein sefyllfa o ran cyflwyno ein Cynllun Iaith Gymraeg. • Creu naratif ac amserlen i gyd-fynd â'r Cynllun Iaith Gymraeg. • Ymgynghoriad cyhoeddus Cynllun Iaith Gymraeg AaGIC yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.		
Cam Penodol i'w Gymryd ***(un yn unig)***	**Gwybodaeth**	**Trafod**	**Sicrhau**	**Cymeradwyo**
				✓
Argymhellion	Gofynnir i aelodau wneud y canlynol: • cymeradwyo drafft o'r Cynllun Iaith Gymraeg (Atodiad 1), y Cynllun Gweithredu drafft (Atodiad 2), a'r broses ymgynghori gyhoeddus ar gyfer Cynllun Iaith Gymraeg AaGIC.		

YR IAITH GYMRAEG - Y SEFYLLFA DDIWEDDARAF

1. CYFLWYNIAD

Pwrpas yr adroddiad hwn yw hysbysu'r Bwrdd o'n sefyllfa o ran datblygu Cynllun Iaith Gymraeg, fel y nodwyd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Ionawr, ac i ofyn am gymeradwyaeth y Bwrdd o'r broses ymgynghori gyhoeddus ar yr un mater.

2. CEFNDIR

2.1 Cynllun Iaith Gymraeg

Tuag at ddiwedd y llynedd, cawsom ein cynghori gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg na fyddai Llywodraeth Cymru yn cadarnhau Safonau'r Gymraeg cymwys ar AaGIC yn y dyfodol agos. Yn hynny o beth, mae Comisiynydd y Gymraeg wedi gofyn i AaGIC baratoi Cynllun Iaith Gymraeg Statudol, fel y rhagnodir o dan y Ddeddf yr Iaith Gymraeg (1993) wreiddiol.

2.2 Papurau'r ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfer y Cynllun Iaith Gymraeg

Rydym bellach wedi paratoi'r dogfennau canlynol i ddechrau'r broses ymgynghori gyhoeddus a amlinellwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg.

1. Cynllun Iaith Gymraeg (Atodiad 1). Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg, gyda rhai mân ddiwygiadau, yn seiliedig ar Bolisi Iaith Gymraeg AaGIC a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mai 2019. Mae Polisi Iaith Gymraeg AaGIC yn seiliedig ar Safonau'r Gymraeg Y mân wahaniaethau rhwng y Cynllun Iaith Gymraeg a'r Polisi Iaith Gymraeg yw: cael gwared ar dair Safon (23, 23a a 24) sy'n cyfeirio'n benodol at gleifion.

2. Cynllun Gweithredu (Atodiad 2). Mae'n gynllun manwl, sy'n dangos pwy fydd yn gyfrifol am sicrhau sut a phryd bydd y Cynllun Iaith Gymraeg yn cael ei weithredu.

2.3 Naratif

Mae'r naratif ynghlwm yn atodiad 3. Mae'r naratif ar gyfer rheolaethau a chanllawiau mewnol - ac NID yn rhan o'r Ymgynghoriad Cyhoeddus. Bydd y naratif yn cyd-fynd â gweithrediad y Cynllun Iaith Gymraeg yn fewnol. Bydd yn egluro sut mae AaGIC yn bwriadu gweithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg (Atodiad 3). Mae hon yn ddogfen sy'n llawer mwy greddfol na'r cynllun ei hun. Mae'n grynodeb o'r camau sy'n ymwneud â disgyblaethau busnes penodol fel sut byddwn yn defnyddio'r ffôn, sut byddwn yn gohebu â phobl a sut byddwn yn cynnal cyfarfodydd.

2.4 Y broses ymgynghori gyhoeddus

Amserlen ar gyfer y broses ymgynghori gyhoeddus a gweithredu'r Cynllun (manylir isod).

Mae’r broses/amserlen ar gyfer gweithredu fel a ganlyn:

- Cynllun Iaith Gymraeg drafft i’w ystyried gan y Bwrdd ym mis Mai (a dogfennaeth ategol). Yn amodol ar gymeradwyaeth y Bwrdd, anfon y Cynllun Iaith Gymraeg at y Comisiynydd am sylwadau.

- ar ôl derbyn ac ystyried sylwadau’r Comisiynydd, byddwn yn ymgynghori’n gyhoeddus ar ein Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig; (Mehefin-Awst).

- y Cyfnod Statudol ar gyfer yr ymgynghoriad hwn yw 8-12 wythnos. Yng ngoleuni'r sefyllfa iechyd cyhoeddus bresennol, mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cytuno y gall AaGIC gynnal yr ymgynghoriad yn gyfan gwbl yn ddigidol.

- gwneir diwygiadau pellach yng ngoleuni'r ymgynghoriad hwn cyn anfon drafft terfynol o'r Cynllun Iaith Gymraeg at y Comisiynydd am Gymeradwyaeth. Cynigir bod y Bwrdd yn cymeradwyo'r drafft terfynol hwn cyn iddo fynd at y Comisiynydd am gymeradwyaeth derfynol – a bydd y broses hon yn cael ei hailadrodd yng ngoleuni unrhyw ddiwygiadau arfaethedig oddi wrth y Comisiynydd. (Rydym yn rhagweld cael cymeradwyaeth derfynol y Bwrdd yng nghyfarfod mis Medi. Yna mae'n ddyletswydd ar y Comisiynydd i gymeradwyo’r Cynllun cyn i ni allu ei gyhoeddi).

3. MATERION LLYWODRAETHU A RISG

Gall peidio â chydymffurfio â’r Cynllun Iaith Gymraeg arwain at gymryd amser (sylweddol) rheolwyr yn ateb Ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg a niweidio enw da.

Gall cyfieithiadau o ansawdd gwael, neu fethiant i gyfieithu dogfennau arwain yn uniongyrchol at fethiant i Gydymffurfio hefyd. Gan ystyried y sefyllfa bresennol a'r camau a gymerwyd o ran rhoi polisi Iaith Gymraeg AaGIC ar waith, ystyrir ar hyn o bryd fod y risg yn un isel.

4. GOBLYGIADAU ARIANNOL

Gall methu â chydymffurfio olygu dirwyon ariannol.

5. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r aelodau gymeradwyo'r Cynllun Iaith Gymraeg drafft (atodiad 1), y Cynllun Gweithredu drafft (Atodiad 2), a’r broses ymgynghori gyhoeddus ar gyfer Cynllun Iaith Gymraeg AaGIC.

Llywodraethu a Sicrwydd			
Clip i IMTP nodau strategol *(rhowch ✓)*	**Nod Strategol 1:** Arwain gwaith cynllunio, datblygu a llesiant gweithlu cymwys, cynaliadwy a hyblyg i gefnogi'r broses o gyflwyno '*Dyfodol Iachach i Gymru*'	**Nod Strategol 2:** Gwella ansawdd a hygyrchedd addysg a hyfforddiant ar gyfer yr holl staff gofal iechyd er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y dyfodol	**Nod Strategol 3:** Gweithio gyda phartneriaid i ddylanwadu ar newid diwylliannol o fewn GIG Cymru drwy adeiladu capasiti arweinyddiaeth dosturiol a thorfol ar bob lefel
	✓		
	Nod Strategol 4: Datblygu'r gweithlu er mwyn helpu i ddarparu diogelwch ac ansawdd	**Nod Strategol 5:** Bod yn gyflogwr rhagorol ac yn lle gwych i weithio ynddo	**Nod Strategol 6:** Cael ei gydnabod fel partner, dylanwadwr ac arweinydd rhagorol
		✓	

Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion	
Mae ansawdd ein gwasanaethau iaith Gymraeg yn adlewyrchu arnom fel corff sy'n gweithredu ledled Cymru.	
Goblygiadau Ariannol	
Y goblygiadau ariannol yw'r rhai a nodwyd ym mhwyntiau 3 a 4 uchod.	
Goblygiadau Cyfreithiol (gan gynnwys asesu cydraddoldeb ac amrywiaeth)	
Sicrhau bod gan y sefydliad Gynllun Iaith Cymraeg cadarn sy'n cefnogi'r gweithlu i ddarparu gwasanaeth dwyieithog effeithiol i'r ardaloedd yng Nghymru lle mae gwneud hynny yn arwain at ganlyniadau clinigol a hyfforddi gwell, yn ogystal â helpu i ddenu mwy o bobl o Gymru i swyddi Iechyd a Gofal. Mae hefyd yn ein galluogi i uchafu'r tebygolrwydd o barhau i gydymffurfio â deddfwriaeth yr Iaith Gymraeg.	
Goblygiadau Staffio	
Dim	
Goblygiadau Tymor Hir (gan gynnwys effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015)	
Mae gweithredu ein Cynllun Iaith Gymraeg yn mynd i'r afael â dau o saith nod y Ddeddf Llesiant - Cymru o gymunedau cydlynus, a Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.	
Hanes yr Adroddiad	Cymeradwywyd y Polisi Iaith Gymraeg yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mai 2019.
Atodiadau	1. Cynllun Iaith Gymraeg drafft 2. Cynllun Drafft 3. Naratif i gyd-fynd â'r Cynllun Iaith Gymraeg

CYNLLUN IAITH – DRAFFT Y BWRDD, MAI 2020

Mae hwn yn dweud, yn iaith y deddfwyr, yn union yr hyn y byddwn yn ei wneud yn fanwl. Mae'n gopi uniongyrchol o ddetholiad o Safonau Statudol o Set 6 (sy'n ymwneud ag Addysg) a Set 7 (sy'n ymwneud ag Iechyd)

Safon 1:

Os byddwch yn cael unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg oddi wrth berson, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb), oni bai bod y person wedi dweud nad oes angen ateb yn Gymraeg

Safon 4:

Pan fyddwch yn anfon yr un ohebiaeth at nifer o bersonau, rhaid ichi anfon fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth ar yr un pryd ag y byddwch yn anfon unrhyw fersiwn Saesneg ohoni.

Safon 5:

Os nad ydych yn gwybod a yw person yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthych yn Gymraeg rhaid ichi ddarparu fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth pan fyddwch yn gohebu â'r person hwnnw.

Safon 6:

Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o ohebiaeth, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg (er enghraifft, os yw'r fersiwn Saesneg wedi ei llofnodi, neu os oes manylion cyswllt wedi eu darparu ar y fersiwn Saesneg, rhaid i'r fersiwn Gymraeg gael ei thrin yn yr un modd).

Safon 7:

Rhaid ichi ddatgan— (a) mewn gohebiaeth, a (b) mewn cyhoeddiadau a hysbysiadau sy'n gwahodd personau i anfon ymateb neu i anfon gohebiaeth atoch,

eich bod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, y byddwch yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Safon 8:

Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi gyfarch y person yn Gymraeg.

Safon 9:

Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi roi gwybod i'r person bod gwasanaeth Cymraeg ar gael.

Safon 10:

Pan fo person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg os yw'r person yn dymuno hynny— (a) hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a

(b) hyd nes nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw.

Safon 11:

Pan fyddwch yn hysbysebu rhifau ffôn, llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Safon 12:

Os byddwch yn cynnig gwasanaeth Cymraeg ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid i rif ffôn y gwasanaeth Cymraeg fod yr un peth â rhif ffôn y gwasanaeth Saesneg cyfatebol

Safon 13:

Pan fyddwch yn cyhoeddi eich prif rif ffôn, neu unrhyw rifau sydd gennych ar gyfer llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau, rhaid ichi nodi (yn Gymraeg) eich bod yn croesawu galwadau yn Gymraeg.

Safon 14:

Os oes gennych ddangosyddion perfformiad ar gyfer delio â galwadau ffôn, rhaid ichi sicrhau nad yw'r dangosyddion perfformiad hynny yn trin galwadau ffôn a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na galwadau a wneir yn Saesneg.

Safon 15:

Rhaid i'ch prif wasanaeth (neu wasanaethau) ateb galwadau ffôn roi gwybod i bersonau sy'n galw, yn Gymraeg, fod modd gadael neges yn Gymraeg.

Safon 16:

Pan na fo gwasanaeth Cymraeg ar gael ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi roi gwybod, yn Gymraeg, i'r personau sy'n galw (pa un ai drwy gyfrwng neges wedi ei hawtomeiddio neu fel arall) pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael.

Safon 17:

Os bydd person yn cysylltu ag un o'ch adrannau ar rif ffôn llinell uniongyrchol (gan gynnwys ar rifau llinell uniongyrchol aelodau staff), a bod y person hwnnw'n dymuno cael gwasanaeth Cymraeg, rhaid ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg— (a) hyd nes ei bod yn angenrheidiol trosglwyddo'r alwad i aelod o staff nad yw'n siarad Cymraeg sy'n gallu darparu gwasanaeth ar bwnc penodol; a

(b) hyd nes nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i ddarparu gwasanaeth ar y pwnc penodol hwnnw.

Safon 18:

Pan fydd person yn cysylltu â chi ar rif llinell uniongyrchol (pa un ai ar rif llinell uniongyrchol adran neu ar rif llinell uniongyrchol aelod o staff), rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth gyfarch y person.

Safon 19:

Pan fyddwch yn ffonio unigolyn ("A") am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i A a yw'n dymuno cael galwadau ffôn oddi wrthych yn Gymraeg, ac os yw A yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o'i ddymuniad, a chynnal galwadau ffôn a wneir i A o hynny ymlaen yn Gymraeg.

Safon 20:

Rhaid i unrhyw system ffôn wedi ei hawtomeiddio sydd gennych ddarparu'r gwasanaeth cyfan wedi ei awtomeiddio yn Gymraeg

Safon 21:

Os byddwch yn gwahodd un person ("P") yn unig i gyfarfod rhaid ichi ofyn i P a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a hysbysu P y byddwch yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw, a

(b) Os yw P yn eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi gynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu, os oes angen, drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu wasanaeth cyfieithu olynol o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod.

Safon 22:

Os byddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, rhaid ichi ofyn i bob person a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.

Standard 22A:

Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod o leiaf 10% (ond llai na 100%) o'r gwahoddedigion wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu wasanaeth cyfieithu olynol o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod.

Standard 22B:

Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod o leiaf 20% (ond llai na 100%) o'r gwahoddedigion wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu wasanaeth cyfieithu olynol o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod.

Standard 22C:

Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod o leiaf 30% (ond llai na 100%) o'r gwahoddedigion wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu wasanaeth cyfieithu olynol o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod. Os oes person yn eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi gynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu, os oes angen, drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu wasanaeth cyfieithu olynol o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod.

Standard 22CH:

Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod pawb a gafodd wahoddiad wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi gynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu, os oes angen, drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu wasanaeth cyfieithu olynol o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod.

Safon 25:

Os byddwch yn gwahodd unigolyn ("A") i gynhadledd achos a gynhelir 5 neu ragor o ddiwrnodau gwaith ar ôl i'r gwahoddiad gael ei anfon—

(a) rhaid ichi ofyn i A a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y gynhadledd achos, a'i hysbysu y byddwch yn cynnal y gynhadledd yn Gymraeg, neu os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg at y diben hwnnw, a

(b) os yw A wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y gynhadledd achos, rhaid ichi gynnal y gynhadledd yn Gymraeg neu, os oes angen, ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu wasanaeth cyfieithu olynol o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg.

Safon 26:

Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd ac y caniateir cyfranogiad y cyhoedd ynddo, rhaid ichi ddatgan ar unrhyw ddeunydd sy'n ei hysbysebu, ac ar unrhyw wahoddiad iddo, bod croeso i unrhyw un sy'n bresennol ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.

Safon 27:

Pan fyddwch yn anfon gwahoddiadau i gyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd ac y caniateir cyfranogiad y cyhoedd ynddo, rhaid ichi eu hanfon yn Gymraeg.

Safon 28:

Os byddwch yn gwahodd personau i siarad mewn cyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd ac y caniateir cyfranogiad y cyhoedd ynddo, rhaid ichi

(a) gofyn i bob person a wahoddir i siarad a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg, a

(b) os yw'r person hwnnw (neu o leiaf un o'r personau hynny) yn eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu wasanaeth cyfieithu olynol o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).

Safon 29:

Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd ac y caniateir cyfranogiad y cyhoedd ynddo, rhaid ichi sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod, a rhaid ichi hysbysu'r rheini sy'n bresennol ar lafar yn Gymraeg—

(a) bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg, a

(b) bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael

Safon 30:

Os byddwch yn llunio ac yn arddangos unrhyw ddeunydd ysgrifenedig mewn cyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi sicrhau bod y deunydd yn cael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw destun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.

Safon 31:

Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth hybu'r digwyddiad (er enghraifft, o ran y ffordd y mae'r digwyddiad yn cael ei hysbysebu neu y rhoddir cyhoeddusrwydd i'r digwyddiad)

Safon 32:

Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn y digwyddiad (er enghraifft, mewn perthynas â gwasanaethau a gynigir i bersonau sy'n bresennol yn y digwyddiad, mewn perthynas ag arwyddion yr ydych yn eu llunio ac yn eu harddangos yn y digwyddiad, ac mewn perthynas â chyhoeddiadau sain a wneir ynddo).

Safon 33:

Rhaid i unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ddeunydd hysbysebu yr ydych yn ei lunio gael ei lunio yn Gymraeg, ac os byddwch yn llunio'r deunydd yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.

Safon 34:

Rhaid i unrhyw ddeunydd yr ydych yn ei lunio ac yn ei arddangos yn gyhoeddus gael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r deunydd yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.

Safon 36:

Os byddwch yn llunio ffurflen sydd i gael ei chwblhau gan unigolyn, rhaid ichi ei llunio yn Gymraeg.

Safon 37:

Os byddwch yn llunio dogfen (ond nid ffurflen) sydd ar gael i un neu ragor o unigolion, rhaid ichi ei llunio yn Gymraeg— (a) os yw pwnc y ddogfen yn awgrymu y dylid ei llunio yn Gymraeg, neu (b) os yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylid llunio'r ddogfen yn Gymraeg.

Safon 38:

Os byddwch yn llunio dogfen neu ffurflen yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi—

(a) peidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg (pa un a ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio);
(b) peidio â gwahaniaethu rhwng y fersiwn Gymraeg a'r fersiwn Saesneg mewn perthynas ag unrhyw ofynion sy'n berthnasol i'r ddogfen neu'r ffurflen (er enghraifft mewn perthynas ag unrhyw ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r ffurflen, neu mewn perthynas â'r amser a ganiateir ar gyfer ymateb i gynnwys y ddogfen neu'r ffurflen); ac
(c) sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir fod y ddogfen neu'r ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg.

Safon 39:

Rhaid ichi sicrhau— (a) bod testun pob tudalen ar eich gwefan ar gael yn Gymraeg, (b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich gwefan yn gweithredu'n llawn, ac (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich gwefan.

Safon 40:

Rhaid ichi sicrhau— (a) bod testun hafan eich gwefan ar gael yn Gymraeg, (b) bod unrhyw destun Cymraeg ar hafan eich gwefan (neu, pan fo'n berthnasol, fod eich hafan Gymraeg) yn gweithredu'n llawn, ac (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â hafan eich gwefan.

Safon 41:

Pan fyddwch yn cyhoeddi tudalen newydd ar eich gwefan neu'n diwygio tudalen, rhaid ichi sicrhau— (a) bod testun y dudalen honno ar gael yn Gymraeg,

(b) bod unrhyw fersiwn Gymraeg o'r dudalen yn gweithredu'n llawn, ac

(c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran testun y dudalen honno

Safon 42:

Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich gwefan sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi ddatgan yn glir ar y dudalen Saesneg fod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a rhaid ichi ddarparu dolen uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol.

Safon 43:

Rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar eich gwefan yn Gymraeg

Safon 44:

Rhaid i bob ap yr ydych yn ei gyhoeddi weithredu'n llawn yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran yr ap hwnnw.

Safon 45:

Pan fyddwch yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 46:

Os bydd person yn cysylltu â chi drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb)

Safon 47:

Pan fyddwch— (a) yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro); neu

(b) yn cyhoeddi neu'n arddangos hysbysiad; rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd neu'r hysbysiad gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd neu hysbysiad sy'n arddangos y testun cyfatebol yn Saesneg neu ar arwydd neu hysbysiad ar wahân); ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.

Safon 48:

Pan fyddwch— (a) yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro); neu (

b) yn cyhoeddi neu'n arddangos hysbysiad; sy'n cyfleu'r un wybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.

Safon 49:

Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion a hysbysiadau yn gywir o ran ystyr a mynegiant.

Safon 50:

Rhaid i unrhyw wasanaeth derbynfa yr ydych yn ei roi ar gael yn Saesneg yn eich derbynfa hefyd fod ar gael yn Gymraeg, a rhaid i unrhyw berson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Cymraeg yn eich derbynfa beidio â chael ei drin yn llai ffafriol na pherson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Saesneg.

Safon 52:

Rhaid ichi arddangos arwydd yn eich derbynfa sy'n datgan (yn Gymraeg) fod croeso i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg yn y dderbynfa.

Safon 53:

Rhaid ichi sicrhau bod staff yn y dderbynfa sy'n gallu darparu gwasanaeth derbynfa Cymraeg yn gwisgo bathodyn sy'n cyfleu hynny.

Safon 54:

Rhaid i unrhyw ddogfennau yr ydych yn eu cyhoeddi sy'n ymwneud â cheisiadau am grant gael eu cyhoeddi yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin fersiwn Gymraeg o'r dogfennau hynny yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohonynt.

Safon 55:

Pan fyddwch yn gwahodd ceisiadau am grant, rhaid ichi— (a) datgan yn y gwahoddiad y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg ac na fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg; a

(b) peidio â thrin ceisiadau am grant a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na cheisiadau a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg materion eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael ceisiadau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i ymgeiswyr am benderfyniadau).

Safon 56:

Pan fyddwch yn rhoi gwybod i ymgeisydd beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chais am grant, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y cais yn Gymraeg.

Safon 57:

Rhaid i unrhyw wahoddiadau i dendro am gontract yr ydych yn eu cyhoeddi gael eu cyhoeddi yn Gymraeg os yw pwnc y contract yn awgrymu y dylai gael ei lunio yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin fersiwn Gymraeg o unrhyw wahoddiad yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohono.

Safon 58:

Pan fyddwch yn cyhoeddi gwahoddiadau i dendro am gontract, rhaid ichi—

(a) datgan yn y gwahoddiad y caniateir i dendrau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg, a
(b) peidio â thrin tendr am gontract a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg materion eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael tendrau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i dendrwyr am benderfyniadau).

Safon 59:

Pan fyddwch yn rhoi gwybod i dendrwr beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â thendr, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y tendr yn Gymraeg.

Safon 60:

Rhaid ichi hybu unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir gennych, a hysbysebu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg.

Safon 61:

Os byddwch yn darparu gwasanaeth yn Gymraeg sy'n cyfateb i wasanaeth yr ydych yn ei ddarparu yn Saesneg, rhaid i unrhyw gyhoeddusrwydd neu ddogfen yr ydych yn ei llunio, neu wefan yr ydych yn ei chyhoeddi, sy'n cyfeirio at y gwasanaeth Saesneg nodi bod gwasanaeth cyfatebol ar gael yn Gymraeg.

Safon 62:

Pan fyddwch yn llunio, yn diwygio neu'n cyflwyno eich hunaniaeth gorfforaethol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 63:

Os byddwch yn cynnig cwrs addysg i un neu ragor o unigolion, rhaid ichi— (a) cynnal asesiad o'r angen i'r cwrs hwnnw gael ei gynnig yn Gymraeg; (b) cynnig y cwrs hwnnw yn Gymraeg os dangosodd yr asesiad fod angen i'r cwrs gael ei gynnig yn Gymraeg.

Safon 64:

Pan fyddwch yn cyhoeddi neges wedi ei recordio dros system annerch gyhoeddus, rhaid ichi wneud y cyhoeddiad hwnnw yn Gymraeg ac, os yw'r cyhoeddiad yn cael ei wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r cyhoeddiad gael ei wneud yn Gymraeg yn gyntaf.

Safon 69:

Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar—

(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 70:

Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—

(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 71:

Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar -

(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a

(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 72:

Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar—

(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a

(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 73:

Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar—

(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a

(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 74:

Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar—
(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 75:

Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried pa effeithiau, os o gwbl (a pha un ai ydynt yn rhai positif neu'n rhai andwyol), y byddai'r penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth yn eu cael ar—

(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 76:

Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar— (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 77:

Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar

(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 79:

Rhaid ichi ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, gyda'r bwriad o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, a rhaid ichi gyhoeddi'r polisi hwnnw ar eich mewnrwyd.

Safon 80:

Pan fyddwch yn cynnig swydd newydd i unigolyn, rhaid ichi ofyn i'r unigolyn hwnnw a yw'n dymuno i'r contract cyflogaeth neu gontract am wasanaethau gael ei ddarparu yn Gymraeg; ac os yw'r unigolyn yn dymuno hynny rhaid ichi ddarparu'r contract yn Gymraeg.

Safon 81:

Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai ("A") a yw'n dymuno cael unrhyw un neu ragor o'r canlynol yn Gymraeg, ac os yw A yn dymuno cael un neu ragor yn Gymraeg rhaid ichi ei ddarparu (neu eu darparu) i A yn Gymraeg—

(a) unrhyw ohebiaeth bapur sy'n ymwneud â'i gyflogaeth ac sydd wedi ei chyfeirio ato; (b) unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu ei anghenion neu ofynion hyfforddi; (c) unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu ei amcanion perfformiad;

(ch) unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu neu'n cofnodi ei gynllun gyrfa;

(d) unrhyw ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi gwyliau blynyddol;

(dd) unrhyw ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi absenoldebau o'r gwaith; (e) unrhyw ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi oriau gweithio hyblyg.

Safon 82:

Os byddwch yn cyhoeddi unrhyw un neu ragor o'r canlynol, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg -

(a) polisi ynghylch ymddygiad yn y gweithle; (b) polisi ynghylch iechyd a lles yn y gwaith; (c) polisi ynghylch cyflogau neu fuddion yn y gweithle; (ch)polisi ynghylch rheoli perfformiad; (d) polisi ynghylch absenoldeb o'r gwaith; (dd) polisi ynghylch amodau gwaith; (e) polisi ynghylch patrymau gwaith.

Safon 83:

Rhaid ichi ganiatáu a datgan mewn unrhyw ddogfen sydd gennych sy'n nodi eich gweithdrefnau ar gyfer gwneud cwynion y caiff pob aelod o staff— (a) gwneud cwyn ichi yn Gymraeg, a (b) ymateb i gŵyn a wnaed amdano ef neu hi yn Gymraeg; a rhaid ichi hefyd roi gwybod i bob aelod o staff am yr hawl honno

Safon 84:

Os byddwch yn cael cwyn gan aelod o staff neu'n cael cwyn ynghylch aelod o staff, a bod angen cyfarfod â'r aelod hwnnw o staff, rhaid ichi— (a) cynnig cynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu, os oes angen, ddarparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw;

Safon 85:

Pan fyddwch yn rhoi gwybod i aelod o staff ("A") beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chŵyn a wneir ganddo, neu mewn perthynas â chŵyn a wneir amdano, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os yw A—

(a) wedi gwneud y gŵyn yn Gymraeg, (b) wedi ymateb yn Gymraeg i gŵyn amdano ef, (c) wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â'r gŵyn yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu (ch) wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r gŵyn.

Safon 86:

Rhaid ichi— (a) caniatáu a datgan mewn unrhyw ddogfen sydd gennych sy'n nodi eich trefniadau ar gyfer disgyblu staff y caiff unrhyw aelod o staff ymateb yn Gymraeg i unrhyw honiadau a wneir yn ei erbyn, a (b) os byddwch yn dechrau gweithdrefn ddisgyblu mewn perthynas ag aelod o staff, rhoi gwybod i'r aelod hwnnw o staff am yr hawl honno.

Safon 87:

Os byddwch yn trefnu cyfarfod ag aelod o staff ynghylch achos disgyblu mewn perthynas â'i ymddygiad, rhaid ichi—

(a) cynnig cynnal y cyfarfod yn Gymraeg neu, os oes angen, ddarparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw; a

(b) os yw'r aelod o staff yn dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, cynnal y cyfarfod yn Gymraeg, neu os oes angen, gyda chymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu wasanaeth cyfieithu olynol o'r Gymraeg i'r Saesneg.

Safon 88:

Pan fyddwch yn rhoi gwybod i aelod o staff (“A”) beth yw’ch penderfyniad yn dilyn gweithdrefn ddisgyblu, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os yw A— (a) wedi ymateb i honiadau yn ei erbyn yn Gymraeg, (b) wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â’r weithdrefn ddisgyblu yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu (c) wedi gofyn am gael defnyddio’r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â’r weithdrefn ddisgyblu.

Safon 89:

Rhaid ichi ddarparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg y Gymraeg i’ch staff, a darparu rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer meddalwedd (pan fo rhyngwyneb ar gael).

Safon 90:

Rhaid ichi sicrhau— (a) bod testun pob tudalen ar eich mewnrwyd ar gael yn Gymraeg, (b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich mewnrwyd yn gweithredu’n llawn, ac (c) nad yw’r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg ar eich mewnrwyd.

Safon 91:

Rhaid ichi sicrhau— (a) bod testun hafan eich mewnrwyd ar gael yn Gymraeg, (b) bod unrhyw destun Cymraeg ar hafan eich mewnrwyd (neu, pan fo’n berthnasol, fod hafan Gymraeg eich mewnrwyd) yn gweithredu’n llawn, ac (c) nad yw’r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg mewn perthynas â hafan eich mewnrwyd.

Safon 93:

Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich mewnrwyd sy’n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi nodi’n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a rhaid darparu dolen uniongyrchol i’r dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol.

Safon 94:

Rhaid ichi neilltuo a chynnal tudalen (neu dudalennau) ar eich mewnrwyd sy’n darparu gwasanaethau a deunydd cymorth i hybu’r Gymraeg ac i gynorthwyo eich staff i ddefnyddio’r Gymraeg.

Safon 95:

Rhaid ichi ddarparu’r rhyngwyneb a’r dewislenni ar eich tudalennau mewnrwyd yn Gymraeg.

Safon 96:

Rhaid ichi asesu sgiliau Cymraeg eich cyflogeion.

Safon 97:

Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd i gael hyfforddiant yn Gymraeg yn y meysydd a ganlyn, os ydych yn darparu hyfforddiant o’r fath yn Saesneg—

(a) recriwtio a chyfweld; (b) rheoli perfformiad; (c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu; (ch) ymsefydlu; (d) delio â’r cyhoedd; ac (dd) iechyd a diogelwch.

Safon 98:

Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd i gael hyfforddiant yn Gymraeg ar ddefnyddio’r Gymraeg yn effeithiol mewn—

(a) cyfarfodydd; (b) cyfweliadau; ac (c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu.

Safon 99:

Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith— (a) i'ch cyflogeion gael gwersi Cymraeg sylfaenol, a (b) i gyflogeion sy'n rheoli pobl eraill gael hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr.

Safon 100:

Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd i'ch cyflogeion sydd wedi cwblhau hyfforddiant Cymraeg sylfaenol gael hyfforddiant pellach, yn rhad ac am ddim, er mwyn datblygu eu sgiliau yn yr iaith.

Safon 101:

Rhaid i chi ddarparu cyfleoedd i gyflogeion gael hyfforddiant, yn rhad ac am ddim, i wella eu sgiliau Cymraeg.

Safon 102:

Rhaid ichi ddarparu cyrsiau hyfforddi er mwyn i'ch cyflogeion ddatblygu— (a) ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth am hanes yr iaith a'i lle yn niwylliant Cymru);

(b) dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg; ac (c) dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle

Safon 103:

Pan fyddwch yn darparu gwybodaeth i gyflogeion newydd (er enghraifft, fel rhan o broses ymsefydlu), rhaid ichi ddarparu gwybodaeth er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg

Safon 104:

Rhaid ichi ddarparu— (a) geiriad neu logo ar gyfer llofnodion e-bost eich staff sy'n eu galluogi i ddynodi a ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n dysgu'r iaith, a (b) geiriad ar gyfer eich cyflogeion a fydd yn eu galluogi i gynnwys fersiwn Gymraeg o'u manylion cyswllt mewn negeseuon e-bost, ac i ddarparu fersiwn Gymraeg o unrhyw neges sy'n hysbysu pobl eraill nad ydynt ar gael i ateb negeseuon e-bost.

Safon 105:

Rhaid ichi— (a) rhoi ar gael i aelodau'r staff sy'n gallu siarad Cymraeg fathodyn iddynt ei wisgo sy'n cyfleu hynny; a (b) hybu gwisgo'r bathodyn ymhlith aelodau'r staff.

Safon 106:

Pan fyddwch yn asesu'r anghenion ar gyfer swydd newydd neu swydd wag, rhaid ichi asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg, a'i chategoreiddio fel swydd pan fo un neu ragor o'r canlynol yn gymwys—

(a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol; (b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd; (c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu (ch) nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.

Standard 106A:

Os byddwch wedi categoreiddio swydd fel un sy'n gofyn bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu fod angen eu dysgu, rhaid ichi—

(a) pennu hynny wrth hysbysebu'r swydd, a (b) hysbysebu'r swydd yn Gymraeg.

Safon 107:

Pan fyddwch yn hysbysebu swydd, rhaid ichi ddatgan y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

Standard 107A:

Os byddwch yn cyhoeddi— (a) ffurflenni cais am swyddi; (b) deunydd esboniadol ynghylch eich proses ar gyfer ymgeisio am swyddi;

(c) gwybodaeth am eich proses gyfweld, neu am unrhyw ddulliau asesu eraill wrth ymgeisio am swyddi; neu

(ch) swydd-ddisgrifiadau; rhaid ichi eu cyhoeddi yn Gymraeg a rhaid ichi sicrhau nad ydych yn trin unrhyw fersiynau Cymraeg o'r dogfennau yn llai ffafriol na fersiynau Saesneg ohonyn

Standard 107B:

Rhaid ichi beidio â thrin cais am swydd a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na chais a wneir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg materion eraill, o ran y dyddiad cau yr ydych yn ei osod ar gyfer cael ceisiadau, ac o ran amseriad rhoi gwybod i ymgeiswyr ynghylch penderfyniadau).

Safon 108:

Rhaid ichi sicrhau bod eich ffurflenni cais am swyddi yn rhoi lle i ymgeiswyr nodi eu bod yn dymuno cael cyfweliad neu ddull arall o asesiad yn Gymraeg ac, os yw ymgeisydd yn dymuno hynny, rhaid ichi gynnal unrhyw gyfweliad neu ddull arall o asesiad yn Gymraeg, neu, os oes angen, ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd neu wasanaeth cyfieithu olynol o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw.

Safon 109:

Pan fyddwch yn rhoi gwybod i ymgeisydd beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chais am swydd, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os gwnaed y cais yn Gymraeg.

Safon 110:

Rhaid ichi gyhoeddi cynllun ar gyfer pob cyfnod 5 mlynedd gan nodi—

(a) i ba raddau yr ydych yn gallu cynnig cynnal ymgynghoriad clinigol yn Gymraeg; (b) y camau yr ydych yn bwriadu eu cymryd i gynyddu eich gallu i gynnig cynnal ymgynghoriad clinigol yn Gymraeg;

(c) amserlen ar gyfer y camau yr ydych wedi rhoi manylion amdanynt yn (b).

Standard 110A:

Dair blynedd ar ôl cyhoeddi cynllun yn unol â safon 110, ac ar ddiwedd cyfnod 5 mlynedd cynllun, rhaid ichi— (a) asesu i ba raddau yr ydych wedi cydymffurfio â'r cynllun; a (b) cyhoeddi'r asesiad hwnnw o fewn 6 mis.

Safon 111:

Pan fyddwch— (a) yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro); neu

(b) yn cyhoeddi neu'n arddangos hysbysiad yn eich gweithle;

rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd neu'r hysbysiad gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd neu hysbysiad sy'n arddangos y testun Saesneg cyfatebol neu ar arwydd neu hysbysiad ar wahân), ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.

Safon 112:

Pan fyddwch— (a) yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro); neu

(b) yn cyhoeddi neu'n arddangos hysbysiad; a bod yr arwydd neu'r hysbysiad hwnnw'n cyfleu yr un wybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.

Safon 113:

Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion a hysbysiadau a arddangosir yn eich gweithle yn gywir o ran ystyr a mynegiant.

Safon 114: Pan fyddwch yn gwneud cyhoeddiad wedi ei recordio dros offer sain yn eich gweithle, rhaid i'r cyhoeddiad hwnnw gael ei wneud yn Gymraeg, ac os gwneir y cyhoeddiad yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r cyhoeddiad gael ei wneud yn Gymraeg yn gyntaf.

Safon 115:

Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o nifer y cwynion yr ydych yn eu cael sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau.

Safon 116:

Rhaid ichi gadw cofnod (yn dilyn asesiadau o sgiliau iaith Gymraeg eich cyflogeion a wnaed gennych yn unol â safon 96), o nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol a, phan fo hynny'n wybyddus ichi, rhaid ichi gadw cofnod o lefel sgiliau'r cyflogeion hynny.

Safon 117:

Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a gategoreiddiwyd (yn unol â safon 106) fel swyddi sy'n gofyn— (a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol; (b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg unwaith y penodir rhywun i'r swydd; (c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu (ch) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.

Safon 118:

Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael ar eich gwefan.

Safon 119:

Rhaid ichi— (a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a

(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich gwefan.

Safon 120:

(1) Rhaid ichi lunio adroddiad ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.

(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys yr wybodaeth a ganlyn (pan fo'n berthnasol, i'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau y cyfeirir atynt)—

(a) nifer y cwynion a gawsoch yn y flwyddyn o dan sylw a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 115);

(b) nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 116); (c) nifer (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 117) y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn—

(ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd; (iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu

(iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.

(3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 6 mis yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.

(4) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael ar eich gwefan

Safon 121:

Rhaid ichi ddarparu i Gomisiynydd y Gymraeg (os gofynnir ganddo) unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau, y safonau llunio polisi neu'r safonau gweithredol yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.

O Reoliadau Safonau rhif 6, mewn perthynas ag Addysg

Safon 40:

Os byddwch yn trefnu darlith gyhoeddus, rhaid ichi sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael at ddiben unrhyw gwestiynau a ofynnir gan y gynulleidfa yn ystod y ddarlith neu ar ôl y ddarlith— (a) pan fo pwnc y ddarlith gyhoeddus yn awgrymu y dylid darparu

gwasanaeth o‘r fath, neu (b) pan fo‘r gynulleidfa a ragwelir a‘u disgwyliad yn awgrymu y dylid darparu gwasanaeth o‘r fath.

Standard 40A:

Os byddwch yn trefnu darlith gyhoeddus ac y byddwch yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, rhaid ichi hysbysu‘r rheini sy‘n bresennol ar lafar yn Gymraeg fod croeso iddynt ddefnyddio‘r Gymraeg.

Safon 49:

Pan fyddwch yn rhyddhau unrhyw ddatganiad i‘r wasg, rhaid ichi ei ryddhau yn Gymraeg, ac os oes fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ddatganiad, rhaid ichi ryddhau‘r ddwy fersiwn ar yr un pryd.

Safon 50:

Os byddwch yn llunio dogfen sydd ar gael i‘r cyhoedd neu i fyfyrwyr, a phan nad oes safon arall wedi ei gwneud yn ofynnol ichi ei llunio yn Gymraeg, rhaid ichi ei llunio yn Gymraeg— (a) os yw pwnc y ddogfen yn awgrymu y dylid ei llunio yn Gymraeg, neu (b) os yw‘r gynulleidfa a ragwelir, a‘u disgwyliadau, yn awgrymu y dylid llunio‘r ddogfen yn Gymraeg.

Safon 88:

Os byddwch yn cynnig cyfle dysgu sy‘n agored i‘r cyhoedd, rhaid ichi ei gynnig yn Gymraeg

Safon 89:

Os byddwch yn datblygu cyfle dysgu sydd i‘w gynnig i‘r cyhoedd, rhaid ichi asesu‘r angen i‘r cyfle hwnnw gael ei gynnig yn Gymraeg; a rhaid ichi sicrhau bod yr asesiad wedi ei gyhoeddi ar eich gwefan

Nodyn esboniadol;

At ddibenion safonau 88 a 89 (cyfleoedd dysgu) a pharagraff 31, ystyr cyfleoedd dysgu yw unrhyw seminar, hyfforddiant, gweithdy, sesiwn flas neu ddarpariaeth debyg sy ‘n cael ei ddarparu neu ei darparu ar gyfer addysgu neu wella sgiliau aelodau o‘r cyhoedd; ond nid yw‘n cynnwys —

(a) unrhyw seminar, hyfforddiant, gweithdy, sesiwn flas na darpariaeth debyg sy‘n cael ei ddarparu neu ei darparu fel rhan o gwrs; neu

(b) seminarau na chyflwyniadau llafar sy‘n ymwneud â pherfformiad neu gynhyrchiad.

Safon 90:

Rhaid ichi hysbysu eich myfyrwyr y caniateir i unrhyw waith ysgrifenedig a gyflwynir ichi fel rhan o asesiad neu arholiad gael ei gyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd gwaith a gyflwynir ichi yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na gwaith ysgrifenedig a gyflwynir ichi yn Saesneg fel rhan o‘r asesiad hwnnw neu‘r arholiad hwnnw.

Standard 90A:

Rhaid ichi beidio â thrin unrhyw waith ysgrifenedig a gyflwynir ichi yn Gymraeg fel rhan o asesiad neu arholiad yn llai ffafriol na gwaith ysgrifenedig a gyflwynir ichi yn Saesneg fel rhan o‘r asesiad hwnnw neu‘r arholiad hwnnw.

Safon 101:

Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried pa effeithiau, os o gwbl (a pha un ai ydynt yn rhai positif neu'n rhai andwyol), y byddai'r penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth yn eu cael ar—

(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Safon 104:

Pan fyddwch yn datblygu neu'n addasu cwrs (neu unrhyw gydran o gwrs), rhaid ichi ystyried— (a) pa effeithiau, os o gwbl (a pha un a yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol), y byddai'r cwrs hwnnw yn eu cael ar—

> (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; (b) sut y byddai'r cwrs hwnnw yn cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar— (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; (c) sut na fyddai'r cwrs hwnnw yn cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar— (i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Cynllun Iaith Gymraeg Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) 2020-2023 – Cynllun Gweithredu

Bydd AaGIC yn cael ei fonitro gan Gomisiynydd y Gymraeg o ran cydymffurfiaeth, yn unol â'r Cynllun Gweithredu hwn. Bydd y Cynllun Gweithredu hwn yn amlinellu'r prif fanylion gweithredu o ran yr ymrwymiadau a wnaed yng Nghynllun Iaith Gymraeg AaGIC – pwy fydd yn gwneud beth, ac erbyn pryd. Mae'n cyd-fynd â'r Prif Gynllun.

Canlyniadau

Yn ystod cyfnod y Cynllun, y canlyniad sy'n ofynnol yw bod y ffrydiau gwaith canlynol yn parhau i gydymffurfio'n llawn â'r Cynllun.

i. Gwefannau
ii. Cynnwys cyfryngau cymdeithasol
iii. Cyhoeddiadau/adroddiadau/ymgynghoriadau
iv. Cysylltu â'r cyfryngau yng Nghymru
v. Ymgyrchoedd recriwtio
vi. Gohebiaeth
vii. Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd AaGIC

Bydd tîm iaith Gymraeg AaGIC yn darparu'r gwasanaethau canlynol i sicrhau cydymffurfiaeth:

- Gwasanaeth Cyfieithu Ysgrifenedig (Saesneg > Cymraeg gan fwyaf, ac weithiau o Gymraeg > Saesneg);
- Gwasanaeth prawf-ddarllen ar gyfer testun Cymraeg mewn cyhoeddiadau neu ddeunydd hyrwyddo etc. a gwasanaeth gwirio testun i staff sy'n dymuno drafftio gohebiaeth yn Gymraeg;
- Gwasanaeth Cyfieithu ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd sy'n cael eu cynnal yng Nghymru (Cymraeg > Saesneg);
- Gwasanaeth Cymraeg i'r cyfryngau;
- Datblygu a chynnal Cronfa Ddata Terminoleg;
- Lanlwytho cynnwys Cymraeg ar wefannau AaGIC lle bo angen, a chynnal cynnwys Cymraeg yn ddyddiol;
- Rheoli cynnwys cyfryngau cymdeithasol Cymraeg AaGIC;
- Rhoi cyngor ar Gynllun Iaith Gymraeg AaGIC;
- Cynnal perthynas waith gyda Chomisiynydd y Gymraeg;
- Archwiliad o'r holl waith sy'n cael ei gynnal ar ran AaGIC gan drydydd partïon;

1) Cynllunio a chyflenwi gwasanaethau

Cam Gweithredu	Cyfrifoldeb am Gyflenwi	Dyddiad Targed
a) Ymroi i hysbysebu a chodi ymwybyddiaeth o'r ymrwymiadau a nodir yng Nghynllun Iaith Gymraeg AaGIC 2020 drwy: • Datblygu cynllun cyfathrebu mewnol ar gyfer y Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig • Cynllunio a chynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth wyneb yn wyneb ar draws AaGIC	Gwasanaethau Cymraeg	Dechrau o fewn 1 mis i Gymeradwyaeth y Bwrdd - parhaus

• Cynllunio a chynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth ddigidol ar draws AaGIC • Cyhoeddi'r Cynllun Iaith Gymraeg diwygiedig ar wefan gyhoeddus AaGIC, heiw.nhs.wales		
b) Swyddogion polisi a Thîm Cyfathrebu AaGIC i gydlynu â Gwasanaethau Cymraeg AaGIC i sicrhau y rhoddir ystyriaeth ddyledus i'r Gymraeg wrth weithio ar adnoddau a/neu wasanaethau newydd (e.e. cynnwys y we, gohebiaeth â rhanddeiliaid, ymgynghoriadau).	Holl dimau perthnasol AaGIC / Tîm Cyfathrebu AaGIC / Gwasanaethau Cymraeg AaGIC	O fewn 1 mis i Gymeradwyaeth y Bwrdd
c) Ymroi i hyrwyddo adnoddau Cymraeg AaGIC	Gwasanaethau Cymraeg	Eisoes wedi dechrau - parhaus
ch) Monitro gwasanaethau a ddarperir gan drydydd partïon ar ran AaGIC mewn perthynas â'r Gymraeg	Swyddogion Polisi AaGIC / Gwasanaethau Cymraeg	Eisoes wedi dechrau - parhaus
d) Cydlynu â chyrff cyhoeddus eraill i sicrhau bod arfer da yn cael ei rannu.	Gwasanaethau Cymraeg	Eisoes wedi dechrau - parhaus

2) Darparu gwasanaethau i'r cyhoedd

Cam Gweithredu	Cyfrifoldeb am Gyflenwi	Dyddiad Targed
(a) Gohebiaeth		
(i) Atgoffa adrannau AaGIC o'r angen i gyfathrebu â'r cyhoedd yn ddwyieithog.	Holl wasanaethau perthnasol/ Gwasanaethau Cymraeg AaGIC	Eisoes wedi dechrau - parhaus
(ii) Sicrhau bod gohebiaeth Gymraeg a Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal a'u cyhoeddi ar yr un pryd.	Holl wasanaethau perthnasol/ Gwasanaethau Cymraeg AaGIC	Eisoes wedi dechrau - parhaus
(iii) Darparu templedi / terminoleg allweddol ar lwyfannau a rennir ar gyfer staff AaGIC yng Nghymru. Darparu cyfieithiadau o lofnodion awtomatig / negeseuon allan o'r swyddfa etc.	Gwasanaethau Cymraeg	Eisoes wedi dechrau - parhaus
(b) Cyfathrebu ar y ffôn		
(i) Darparu gwasanaeth dwyieithog llawn ar y brif linell ffôn gyhoeddus. Trosglwyddo galwadau lle bo'n briodol, yn ôl dewis iaith a natur yr ymholiad.	Tîm Cymorth Busnes	Eisoes wedi dechrau – angen mwy o fireinio. O fewn 3 mis ar ôl dychwelyd i'r swyddfa.
(ii) Sicrhau bod staff yn ateb eu ffonau gyda chyfarchiad dwyieithog (bore da/prynhawn da) ac yn gyfarwydd â'r trefniant i gynnig gwasanaeth	Staff AaGIC / Gwasanaethau Cymraeg	Eisoes wedi dechrau - parhaus

Cymraeg. Sicrhau bod negeseuon llais yn cael eu recordio'n ddwyieithog (llinell dir a ffonau symudol)		
(c) Cyfarfodydd		
(i) Darparu cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd	Gwasanaethau Cymraeg	Eisoes wedi dechrau - parhaus
(d) Digwyddiadau Cyhoeddus		
(i) Rhaid i AaGIC beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â chyhoeddusrwydd, arwyddion, gwybodaeth, staffio a chymorth y maent yn ei ddarparu i bobl mewn digwyddiad cyhoeddus a drefnir yng Nghymru, ar lafar neu'n ysgrifenedig.	Tîm Cyfathrebu sy'n gyfrifol am drefnu digwyddiadau/ Gwasanaethau Cymraeg (i gynghori a chyfieithu'r holl ddeunydd perthnasol ac i oruchwylio staffio dwyieithog)	Eisoes wedi dechrau - parhaus
(e) Cyhoeddiadau		
(i) Codi ymwybyddiaeth ymhlith staff ynglŷn â phryd i ystyried cyhoeddi dogfennau, cyhoeddiadau a deunydd cyhoeddusrwydd yn Gymraeg a Saesneg	Gwasanaethau Cymraeg	O fewn 1 mis i Gymeradwyaeth y Bwrdd
(f) Gwasanaethau digidol		
(i) Sicrhau bod unrhyw gynnwys newydd ar wefan AaGIC yn cael ei gyfieithu i sicrhau gwasanaeth cyfartal yn y	Gwasanaethau Cymraeg / Tîm Digidol	Ymarferoldeb i'w ychwanegu at ddatblygiadau unrhyw wefan newydd

ddwy iaith drwy greu system fflagio o fewn y System Rheoli Cynnwys.		
(ii) Asesu gofynion y Gymraeg wrth ddatblygu a diweddaru systemau TG ar gyfer gwasanaethau a ddarperir i'r cyhoedd yng Nghymru.	Gwasanaethau Cymraeg / Tîm Digidol	Eisoes wedi dechrau - parhaus
(g) Cyfryngau Cymdeithasol		
(i) Sefydlu gweithdrefn fewnol y cytunwyd arni i sicrhau bod negeseuon cymdeithasol perthnasol yn cael eu postio yn Gymraeg a Saesneg yng Nghymru.	Tîm Cyfathrebu / Gwasanaethau Cymraeg	Eisoes wedi dechrau - parhaus
(ii) Wrth greu sianeli cymdeithasol newydd, neu ddatblygu sianeli sy'n bodoli eisoes, ystyriwch y gofynion a amlinellir yn y Cynllun Iaith Gymraeg i sicrhau gwasanaeth cyfartal yn y Gymraeg a'r Saesneg.	Tîm Cyfathrebu / Gwasanaethau Cymraeg	Eisoes wedi dechrau - parhaus

(3) Recriwtio

(i) Monitro prosesau recriwtio i sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion a amlinellir yn y Cynllun Iaith Gymraeg.	Gwasanaethau Cymraeg / Arweinwyr Tîm Perthnasol	Sefydlu o fewn 3 mis i Gymeradwyaeth y Bwrdd

(ii) Datblygu fframwaith i asesu a phennu lefel y sgiliau Cymraeg sy'n angenrheidiol ar gyfer swyddi yn AaGIC	Gwasanaethau Cymraeg	O fewn 1 mis i Gymeradwyaeth y Bwrdd
(iii) Os bernir bod y Gymraeg yn 'Hanfodol' i swydd yn dilyn ymgynghoriad, cynghori ar y lefel sy'n ofynnol drwy ddefnyddio'r fframwaith hwnnw.	Gwasanaethau Cymraeg	O fewn 1 mis i Gymeradwyaeth y Bwrdd 3. ii. uchod
(iv) Sicrhau bod hysbysebion / hysbysiadau recriwtio a phecynnau cais ar gyfer swyddi yn cael eu darparu'n ddwyieithog a bod yr holl hysbysebion / hysbysiadau a roddir yn y cyfryngau yn ymddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg.	Gwasanaethau Cymraeg / Arweinydd Tîm Recriwtio / Adnoddau Dynol AaGIC	O fewn 1 mis i Gymeradwyaeth y Bwrdd 3. iii. uchod

(4) Gweithredu, monitro ac adrodd

(i) Yn unol â'n hymrwymiadau yn y Cynllun Iaith Gymraeg, nodi a hwyluso hyfforddiant Cymraeg priodol yn ôl yr angen.	Gwasanaethau Cymraeg / Tîm Cymorth Busnes	Eisoes wedi dechrau - parhaus
(ii) Darparu bathodynnau/laniardiau Iaith Gwaith a deunyddiau cysylltiedig eraill i aelodau staff sy'n dymuno cynnig gwasanaeth Cymraeg.	Gwasanaethau Cymraeg	Eisoes wedi dechrau - parhaus
(iii) Pan fydd AaGIC yn dechrau trefniadau gyda thrydydd partïon/gweithio mewn partneriaeth, monitro'r trefniadau	Gwasanaethau Cymraeg	Eisoes wedi dechrau - parhaus

sy'n ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg ochr yn ochr â gofynion monitro eraill.		
(iv) Monitro cynnydd AaGIC wrth gyflawni'r ymrwymiadau a wnaed yn y Cynllun ochr yn ochr â'r camau mesuradwy a amlinellir yn y cynllun gweithredu hwn. Cofnodi'r galw am wasanaethau Cymraeg, gan gynnwys unrhyw alw am wasanaethau sy'n mynd y tu hwnt i'r ymrwymiadau a wnaed yn ein Cynllun Iaith Gymraeg.	Gwasanaethau Cymraeg	Bob 3 mis ar ôl i'r Cynllun gael ei fabwysiadu
(v) Darparu adroddiad hunan-asesu wedi'i gwblhau i Gomisiynydd y Gymraeg (Adroddiad Monitro Blynyddol) gan werthuso ein cynnydd wrth weithredu'r Cynllun.	Rheolwr Iaith Gymraeg	Yn flynyddol, ar ôl i'r Cynllun gael ei fabwysiadu
(vi) Cyhoeddi Adroddiad Monitro Blynyddol AaGIC ar wefan gyhoeddus AaGIC heiw.nhs.wales	Gwasanaethau Cymraeg /Tîm Digidol	Yn flynyddol, ar ôl i'r Cynllun gael ei fabwysiadu
(vii) Adolygu Cynllun Iaith Gymraeg AaGIC o fewn tair blynedd ar ôl iddo ddod i rym a thrafod unrhyw newidiadau gyda Chomisiynydd y Gymraeg.	Gwasanaethau Cymraeg	3 blynedd ar ôl mabwysiadu'r Cynllun

Naratif y Bwrdd ar gyfer Cynllun Iaith Gymraeg 2020- 2023

Pwrpas

Mae'r naratif hwn ar gyfer rheolaethau a chanllawiau mewnol a bydd yn cyd-fynd â gweithrediad y Cynllun Iaith Gymraeg yn fewnol. Bydd yn egluro sut mae AaGIC yn bwriadu gweithredu ei Gynllun Iaith Gymraeg (Atodiad 3). Mae'n ddogfen llawer mwy greddfol na'r cynllun ei hun. Mae'n grynodeb o'r camau sy'n ymwneud â disgyblaethau busnes penodol fel sut byddwn yn defnyddio'r ffôn, sut byddwn yn gohebu â phobl a sut byddwn yn cynnal cyfarfodydd.

Cyflwyniad

Ein Sefydliad

Sefydlwyd AaGIC ar 1 Hydref 2018, fel unfed aelod ar ddeg GIG Cymru ar ôl i dri o hen sefydliadau uno: Deoniaeth Cymru, Canolfan Addysg Fferylliaeth Broffesiynol Cymru (WCPPE) a Gwasanaethau Datblygu Addysg a'r Gweithlu (WEDS).

Mae gennym rôl flaenllaw mewn addysg, hyfforddiant, datblygiad a llunio'r gweithlu gofal iechyd yng Nghymru, gan gefnogi gofal o ansawdd uchel i bobl Cymru.

Mae ein swyddogaethau allweddol yn cynnwys:

- Gweithio'n agos â phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol, a chynllunio ymlaen llaw i sicrhau bod y gweithlu iechyd a gofal yn diwallu anghenion y GIG a phobl Cymru, nawr ac yn y dyfodol;
- Bod yn ffynhonnell o wybodaeth a chudd-wybodaeth ar weithlu iechyd a gofal yng Nghymru;
- Comisiynu, cynllunio a darparu addysg a hyfforddiant gwerth am arian o ansawdd uchel, yn unol â safonau;
- Defnyddio addysg, hyfforddiant a datblygiad i annog a hwyluso dilyniant gyrfa
- Cefnogi addysg, hyfforddiant a rheoleiddio gwasanaethau drwy chwarae rhan allweddol wrth gynrychioli Cymru, a gweithio'n agos gyda rheoleiddwyr;
- Datblygu arweinwyr gofal iechyd y presennol a'r dyfodol;
- Rhoi cyfleoedd i'r gweithlu iechyd a gofal ddatblygu sgiliau newydd;

- Hyrwyddo gyrfaoedd iechyd a gofal yng Nghymru, a Chymru fel lle i fyw;
- Cefnogi'r gweithlu proffesiynol a'r proffesiwn datblygu sefydliadol yng Nghymru;
- Parhau i wella'r hyn rydym yn ei wneud a sut rydym yn ei wneud.

Fel sefydliad, rydym wedi ein lleoli yn Tŷ Dysgu, Nantgarw, sef canolfan reoli a gweinyddol dros 200 o staff a dewis o lefydd cyfarfod i gynnal busnes. Mae gennym gofod swyddfa bach yng Ngogledd Cymru hefyd.

Ein Cynllun

Mae Cynllun Iaith Gymraeg AaGIC yn ein hymrwymo i gefnogi'r egwyddor y tu ôl i Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, o drin y rhai yng Nghymru sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg, yn yr un ffordd â'r rhai sy'n dymuno defnyddio'r Saesneg. Mae'r naratif hwn yn nodi sut byddwn yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru a sut rydym yn bwriadu dod yn sefydliad mwy dwyieithog yn ystod cyfnod y Cynllun hwn.

Dylid ei ddarllen ar y cyd â'n Cynllun iaith Gymraeg a'r Cynllun Gweithredu manwl i weithredu'r cynllun hwnnw.

Ein Darpariaeth Gymraeg

Gohebiaeth Ysgrifenedig – Llythyron, e-byst a gohebiaeth drwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol

Byddwn yn sicrhau ein bod yn:

● Croesawu deunydd cyfathrebu yn Gymraeg neu Saesneg, gan gynnwys deunydd atodol fel ffurflenni, taflenni gwybodaeth ac ati.

● Ymateb i unrhyw ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg, ac mae ein hamser targed ar gyfer ateb yr un peth yn Gymraeg a Saesneg.

● Pan fyddwn yn dechrau gohebu ag unigolyn, grŵp neu sefydliad yng Nghymru, mae'r ohebiaeth yn ddwyieithog (oni bai ein bod yn ymwybodol o'u dewis iaith).

● Cyhoeddir unrhyw ohebiaeth ddilynol yn unol â dewis iaith yr unigolyn/sefydliad.

● Anfonir gohebiaeth safonol neu gylchlythyrau yn ddwyieithog.

● Anfonir gohebiaeth ar yr un pryd yn y ddwy iaith.

● Bydd llofnodion e-bost, ymwadiadau, negeseuon 'allan o'r swyddfa' ac unrhyw wybodaeth safonol arall a ddarperir gan staff AaGIC yn ddwyieithog (darperir geiriad i helpu staff i gael safon a fformat cyson).

● Os ydym yn cynhyrchu fersiynau Cymraeg a Saesneg cyfatebol o ddeunydd cyfathrebu, byddwn yn trin y fersiwn Gymraeg yn gyfartal â'r Saesneg (er enghraifft, cynnwys llofnod electronig, logos, gwybodaeth cyfryngau cymdeithasol). Bydd hyn yn cynnwys defnyddio cyfeiriadau post Cymraeg wrth anfon llythyrau yn Gymraeg.

Ffôn

Rydym yn rhoi dewis iaith i'r rheini sy'n cysylltu ag AaGIC drwy'r ffôn, fel a ganlyn:

● Mae derbynnydd dwyieithog yn staffio'r brif linell ffôn gyhoeddus sydd ar y dderbynfa, sy'n ateb gyda chyfarchiad dwyieithog.

● Bydd galwadau gan aelodau o'r cyhoedd i'r rhif hwn yn Gymraeg ar gyfer timau penodol yn cael eu trosglwyddo i aelodau o'r timau hynny sy'n siarad Cymraeg.

● Os nad oes siaradwr Cymraeg ar gael sy'n gymwys i ddelio â'r ymholiad, rhoddir dewis i'r galwr i gael siaradwr Cymraeg i ffonio nôl cyn gynted â phosibl, parhau â'r alwad yn Saesneg, neu gyflwyno ymholiad ysgrifenedig yn Gymraeg.

● Gyda phob llinell ffôn yn AaGIC, bydd staff yn ateb y ffôn gyda chyfarchiad dwyieithog syml ('Bore da' neu 'Prynhawn da' gan fwyaf) ac os nad yw'r alwad ar eu cyfer nhw'n bersonol, bydd yn cynnig dewis iaith drwy ddilyn y camau a nodwyd uchod.

● Pan fyddwn yn dechrau cysylltu ar y ffôn gydag unigolyn, grŵp neu sefydliad yng Nghymru, bydd hyn yn cael ei wneud yn ddwyieithog (oni bai ein bod yn ymwybodol o'u dewis iaith).

● Mae'r holl negeseuon ffôn yn ddwyieithog.

Cyfarfodydd Mewnol

- Os gwahoddir un neu fwy o bobl i gyfarfod, gofynnwn i bob unigolyn os hoffent ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg a gallwn ddarparu cyfieithu ar y pryd ar gyfer y cyfarfod. Mae offer ar gael yn fewnol.

Cyfarfodydd Cyhoeddus, Digwyddiadau a Chyhoeddusrwydd

- Rydym yn darparu cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ym mhob cyfarfod yng Nghymru sy'n agored i'r cyhoedd. Mae gwahoddiadau a hysbysebion ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru yn ddwyieithog gan nodi y bydd cyfleusterau cyfieithu ar gael.
- Rydym yn annog cyfraniadau yn Gymraeg drwy hysbysu'r rhai sy'n bresennol:
    - bod croeso iddyn nhw gyfrannu yn Gymraeg
    - bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael sy'n caniatáu iddyn nhw wneud hynny
    - darparu agendâu, papurau a gwybodaeth arall yn ddwyieithog
    - darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd (Cymraeg i'r Saesneg)
    - cyhoeddi cofnodion neu bapurau yn dilyn y cyfarfodydd hyn yn ddwyieithog

Dogfennau a ffurflenni

- Bydd unrhyw ffurflenni newydd, sydd i'w llenwi gan unigolyn, hefyd yn cael eu cynhyrchu yn Gymraeg.
- Pan fydd AaGIC yn cynhyrchu dogfen (ond nid ffurflen) sydd ar gael i un neu fwy o unigolion, bydd yn cael ei chynhyrchu yn Gymraeg.

- (a) os yw testun y ddogfen yn awgrymu y dylid ei chynhyrchu yn Gymraeg, neu
- (b) Os yw'r gynulleidfa a ragnodir, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylid cynhyrchu'r ddogfen yn Gymraeg.

Gwefan ac adnoddau ar-lein

- Mae prif wefan AaGIC heiw.nhs.wales wedi'i datblygu'n ddwyieithog gyda'r gallu i doglo yn uniongyrchol rhwng ieithoedd.
- Dylai unrhyw gynnwys neu ddatblygiadau i brif wefan AaGIC yn y dyfodol a micro-wefannau llai, gael eu gweithredu'n ddwyieithog.
- Byddwn yn sicrhau y bydd unrhyw wasanaeth ar-lein ar gael i'r cyhoedd yn ddwyieithog.
- Wrth ddylunio gwefannau newydd, neu ddatblygu ein gwefannau presennol, byddwn yn ystyried canllawiau Comisiynydd y Gymraeg ar Dechnoleg, Gwefannau a Meddalwedd: Ystyriaethau Iaith Gymraeg a Chynllun Gweithredu Technoleg Cymraeg Llywodraeth Cymru.

Apiau a Chyfryngau Cymdeithasol

- Bydd unrhyw apiau rydym yn eu cynhyrchu yn ymddangos yn ddwyieithog, gydag ansawdd y fersiwn Gymraeg cystal â'r fersiwn Saesneg.
- Wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol ar gyfrifon corfforaethol ac adrannol nid yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Arwyddion

Bydd AaGIC yn sicrhau bod yr holl arwyddion newydd a'r rhai sy'n cael eu gosod yn lle'r hen rai oddi mewn i AaGIC yn ddwyieithog. Bydd hyn yn cynnwys arwyddion dwyieithog mewn derbynfeydd sy'n hysbysu'r cyhoedd o'u hawl i ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg.

- Sicrhau bod y ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal o ran maint, ansawdd, eglurdeb ac amlygrwydd.
- Er mai arwyddion dwyieithog yw'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio, bydd arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, os cânt eu cyhoeddi, yn gyfartal o ran maint, ansawdd, eglurdeb ac amlygrwydd.
- Bydd cyfieithydd cymeradwy yn prawf-ddarllen yr holl arwyddion dwyieithog a'r fersiynau Cymraeg ar wahân er mwyn sicrhau cysondeb yn safon y Gymraeg.
- Mae'r mesurau hyn yn berthnasol i arwyddion parhaol ac arwyddion dros dro.

Gwasanaeth Derbynfa

- Mae derbynnydd dwyieithog yn staffio ein derbynfa, sy'n gwisgo bathodyn a laniard i ddangos eu bod yn gallu cynnig gwasanaeth derbynfa yn Gymraeg.
- Ceir arwydd clir sy'n nodi (yn Gymraeg) bod croeso i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y dderbynfa.

Hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg

- Bydd AaGIC yn hyrwyddo unrhyw wasanaethau Cymraeg a ddarparwn drwy'r wefan ac e-byst staff, a byddwn yn hysbysebu'r gwasanaethau hynny yn Gymraeg.
- Pan fydd gwasanaeth a ddarperir yn Gymraeg yn cyfateb i wasanaeth a ddarperir yn Saesneg, bydd unrhyw gyhoeddusrwydd neu ddogfen a gynhyrchir, neu wefan a gyhoeddir, sy'n cyfeirio at y gwasanaeth Saesneg, hefyd yn nodi bod gwasanaeth cyfatebol ar gael yn Gymraeg.

Hunaniaeth Gorfforaethol

- Bydd AaGIC yn mabwysiadu hunaniaeth gorfforaethol gwbl ddwyieithog.
- Mae hyn yn cynnwys enw AaGIC, ei gyfeiriad, logo, hunaniaeth weledol, slogan corfforaethol ac unrhyw wybodaeth safonol arall sydd i'w defnyddio ar:
    - bapur pennawd, papur ffacs, slipiau cyfarch, llofnodion e-bost
    - Yr holl ddeunydd hyrwyddo / hysbysebu cyhoeddus (h.y. taflenni, posteri etc.)

Hyfforddiant Cymraeg

- Bydd staff ac aelodau AaGIC yn cael eu hannog i ddysgu Cymraeg ac i wella eu gallu Cymraeg (siarad ac ysgrifennu). Byddwn yn eu cefnogi, yn ariannol ac wrth neilltuo amser. Mae cyrsiau wedi'u trefnu gan y rheolwr Cymraeg a chânt eu cynnig ar wahanol lefelau.

- Bydd gan holl staff AaGIC gyfle i elwa o'r darpariaethau canlynol:

- modiwlau ar-lein Cymraeg wedi'u datblygu a'u cyflwyno gan fenter Cymraeg Gwaith Llywodraeth Cymru.

- darpariaeth arall a gynigir gan fenter Cymraeg Gwaith Llywodraeth Cymru, wrth i amser ac adnoddau ganiatáu.

- grŵp dysgwyr Cymraeg mewnol.

- cyfeirio at sianeli effeithiol (fel Say Something in Welsh a Duolingo).

- hysbysu staff am gyfleoedd i gymdeithasu yn Gymraeg y tu allan i'r gwaith.

Gwneud polisïau

Byddwn yn sicrhau y canlynol:

- wrth ddatblygu polisïau a mentrau newydd, neu adolygu rhai cyfredol, byddwn yn ystyried unrhyw effeithiau posibl (p'un a ydynt yn bositif

neu'n negyddol) ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- i asesu effeithiau posibl unrhyw bolisïau a mentrau newydd / diwygiedig, bydd yn rhan o asesiad cyfun o'r effaith lle gofynnir cwestiynau penodol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau na chaiff ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- bod deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth, polisïau a chodau ymarfer newydd yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg ac yn gofyn i staff ystyried y Gymraeg o gychwyn/dechrau unrhyw broses.
- mae ein dogfennau ymgynghori yn trafod y berthynas rhwng y Gymraeg a'r polisïau, y mentrau a'r gwasanaethau sy'n cael eu datblygu.

Defnyddio'r Gymraeg yn fewnol

- Gofynnir i bob gweithiwr a yw'n dymuno derbyn unrhyw un o'r canlynol yn Gymraeg:
    - Gohebiaeth sy'n ymwneud â'u cyflogaeth.
    - Dogfennau sy'n amlinellu unrhyw angen neu ofynion hyfforddi.
    - Dogfennau sy'n amlinellu eu hamcanion perfformiad.
    - Dogfennau sy'n amlinellu neu'n cofnodi eu cynllun gyrfa.
    - Ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi gwyliau blynyddol.
    - Ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi absenoldebau o'r gwaith.
    - Ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi oriau gweithio'n hyblyg.

- Cyhoeddir y canlynol i gyd yn Gymraeg:
    - Polisi sy'n ymwneud ag ymddygiad yn y gweithle.
    - Polisi sy'n ymwneud ag iechyd a lles yn y gwaith.
    - Polisi sy'n ymwneud â chyflogau neu fuddion yn y gweithle.
    - Polisi sy'n ymwneud â rheoli perfformiad.
    - Polisi sy'n ymwneud ag absenoldeb o'r gwaith.
    - Polisi sy'n ymwneud ag amodau gwaith.
    - Polisi sy'n ymwneud â phatrymau gwaith.

Cwynion a chamau disgyblu staff

- Os yw staff eisiau i unrhyw gwynion neu faterion disgyblu gael eu trafod drwy gyfrwng y Gymraeg, byddwn yn ceisio sicrhau y gellir gwneud hyn.

Meddalwedd Cyfrifiadurol

- Darperir meddalwedd gyfrifiadurol i bob cyfrifiadur staff i wirio sillafu a gramadeg Cymraeg, a darperir rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer meddalwedd (lle mae rhyngwyneb yn bodoli).

Mewnrwyd

- Lle bo'n briodol ac yn ymarferol, byddwn yn sicrhau bod staff yn gallu derbyn ac ymateb i gynnwys ar ein mewnrwyd yn ddwyieithog.

Sgiliau Cymraeg staff

- Drwy Gofnod Staff Electronig (ESR) a'r broses recriwtio, asesir sgiliau Cymraeg gweithwyr.

Bydd AaGIC yn cynnig cyfleoedd yn ystod oriau gwaith:
(a) i weithwyr dderbyn gwersi Cymraeg sylfaenol, ac
(b) i weithwyr sy'n rheoli eraill i dderbyn hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr.

Bydd AaGIC yn:
(a) sicrhau bod aelodau staff sy'n gallu siarad Cymraeg yn cael bathodynnau siarad Cymraeg er mwyn iddynt eu gwisgo i gyfleu hynny; a
(b) hyrwyddo gwisgo'r bathodyn ymhlith aelodau staff.

Recriwtio a chynllunio'r gweithlu

Pan fydd AaGIC yn asesu'r gofynion ar gyfer swydd newydd neu swydd wag, rhaid asesu'r angen am sgiliau Cymraeg, a'i gategoreiddio fel swydd lle mae un neu fwy o'r canlynol yn berthnasol:

(a) Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol;
(b) Mae angen dysgu sgiliau Cymraeg wrth gael eu penodi i'r swydd;
(c) Mae sgiliau Cymraeg yn ddymunol; neu
(ch) Nid oes angen sgiliau Cymraeg.

Arwyddion yn y gweithlu

- Bydd holl arwyddion y gweithlu yn Tŷ Dysgu yn ddwyieithog.

Cyhoeddiadau sydd wedi'u recordio yn y gweithle

- Bydd unrhyw gyhoeddiadau yn y gweithle sy'n cael eu recordio yn ddwyieithog.

Darlithoedd Cyhoeddus

Pan gynhelir darlithoedd cyhoeddus, byddwn yn sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael ar gyfer unrhyw gwestiynau a ofynnir gan y gynulleidfa yn ystod neu ar ôl y ddarlith lle:
(a) Mae testun y ddarlith gyhoeddus yn awgrymu y dylid darparu gwasanaeth o'r fath, neu
(b) Mae'r gynulleidfa a ragwelir a'u disgwyliadau yn awgrymu y dylid darparu gwasanaeth o'r fath.

Cyfathrebu
Pan fyddwch yn cyhoeddi unrhyw ddatganiad i'r wasg, rhaid ei gyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg ar yr un pryd.

Darparu cyrsiau

Pan fydd AaGIC yn datblygu cyfleoedd dysgu, asesir yr angen i'r cyfle hwnnw gael ei gynnig yn Gymraeg; a chyhoeddir yr asesiad ar ein gwefan.

Cyflwyno gwaith ysgrifenedig

Bydd myfyrwyr yn cael eu cefnogi a'u hannog i gyflwyno aseiniadau yn Gymraeg. Pan ofynnir amdanynt, bydd briffiau aseiniad yn cael eu cyfieithu a bydd modd asesu myfyrwyr drwy gyfrwng y Gymraeg. Os nad oes gan dîm y cwrs/ysgol ddarlithydd Cymraeg, bydd AaGIC yn ystyried cyfieithu'r aseiniad o'r Gymraeg i'r Saesneg.

Dyddiad y Cyfarfod	**28 Mai 2020**	**Eitem ar yr Agenda**	**4.5**
Teitl yr Adroddiad	**Newid i'r Terfynau Ariannol/Rheolau Sefydlog Dirprwyedig**		
Awdur yr Adroddiad	Dafydd Bebb, Ysgrifennydd y Bwrdd		
Noddwr yr Adroddiad	Dafydd Bebb, Ysgrifennydd y Bwrdd		
Cyflwynwyd gan	Dafydd Bebb, Ysgrifennydd y Bwrdd		
Rhyddid Gwybodaeth	Agored		
Pwrpas yr Adroddiad	Mae'r adroddiad hwn yn ceisio cymeradwyaeth y Bwrdd ar gyfer y diwygiad arfaethedig i'r Terfynau Ariannol Dirprwyedig sy'n rhan o Reolau Sefydlog AaGIC.		
Materion allweddol	Mae'n rhaid i'r Bwrdd gymeradwyo unrhyw ddiwygiad i Reolau Sefydlog AaGIC. Mae'r diwygiad arfaethedig yn ymateb i'r ffaith fod y Cyfarwyddwr Nyrsio ar fin ymddeol. Bydd y diwygiad yn dod i rym yn ystod y cyfnod pan fydd y swydd Cyfarwyddwr Nyrsio yn wag (Cyfnod Dros Dro). Yn ystod y Cyfnod Dros Dro bydd terfynau ariannol y rôl Pennaeth Addysg, Comisiynu ac Ansawdd yn cael eu cynyddu i'r un lefel â therfynau'r Cyfarwyddwr Nyrsio.		
Cam Penodol i'w Gymryd ***(un ✓yn unig)***	**Gwybodaeth**	**Trafod**	**Sicrhau**	**Cymeradwyo**
				✓
Argymhellion	Gofynnir i'r aelodau wneud y canlynol: • **Cymeradwyo'r** Terfynau Ariannol Dirprwyedig yn Atodiad 1 (sy'n rhan o Reolau Sefydlog AaGIC) ar gyfer y cyfnod lle mae disgwyl i'r swydd Cyfarwyddwr Nyrsio fod yn wag yn dilyn ymddeoliad y deiliad presennol.		

DIWYGIAD I'R TERFYNAU ARIANNOL DIRPRWYEDIG/RHEOLAU SEFYDLOG

1. Cyflwyniad

Pwrpas yr adroddiad hwn yw ceisio cymeradwyaeth y Bwrdd ar gyfer y diwygiad arfaethedig i'r Terfynau Ariannol Dirprwyedig.

2. Cefndir

Mae'r Terfynau Ariannol Dirprwyedig yn rhan o Reolau Sefydlog AaGIC. Mae'n rhaid i'r Bwrdd gymeradwyo diwygiad i Reolau Sefydlog AaGIC.

Bydd y diwygiad arfaethedig yn galluogi'r Gyfarwyddiaeth Nyrsio i barhau i gymeradwyo gwariant yn ystod cyfnod lle bydd y rôl Cyfarwyddwr Nyrsio yn wag.

3. Y cynnig

Bydd y diwygiad yn dod i rym yn ystod y cyfnod pan fydd y swydd Cyfarwyddwr Nyrsio yn wag ar ôl ymddeoliad y deiliad presennol (Cyfnod Dros Dro).

Yn ystod y Cyfnod Dros Dro bydd terfynau ariannol y rôl Pennaeth Addysg, Comisiynu ac Ansawdd yn cael eu cynyddu i'r un lefel â therfynau'r Cyfarwyddwr Nyrsio.

4. Materion Llywodraethu a Risg

Bydd y diwygiad arfaethedig yn galluogi'r Gyfarwyddiaeth Nyrsio i barhau i gymeradwyo gwariant yn ystod cyfnod lle bydd y rôl Cyfarwyddwr Nyrsio yn wag.

5. Goblygiadau Ariannol

Nid oes goblygiadau ariannol i'r Bwrdd eu hystyried.

6. Yr Argymhelliad

Gofynnir i'r aelodau wneud y canlynol:

- **Cymeradwyo'r** Terfynau Ariannol Dirprwyedig yn Atodiad 1 (sy'n rhan o Reolau Sefydlog AaGIC) ar gyfer y cyfnod lle mae disgwyl i'r swydd Cyfarwyddwr Nyrsio fod yn wag yn dilyn ymddeoliad y deiliad presennol.

Llywodraethu a Sicrwydd			
Cysylltu â nodau strategol y Cynllun Tymor Canolig Integredig *(rhowch ✓)*	**Nod Strategol 1:** Arwain y broses o gynllunio a datblygu gweithlu cymwys, cynaliadwy a hyblyg, a sicrhau ei lesiant, er mwyn helpu i gyflawni *'Cymru Iachach'*	**Nod Strategol 2:** Gwella ansawdd a hygyrchedd addysg a hyfforddiant ar gyfer yr holl staff gofal iechyd er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y dyfodol	**Nod Strategol 3:** Gweithio gyda phartneriaid i ddylanwadu ar newid diwylliannol yn GIG Cymru drwy ddatblygu capasiti arwain tosturiol a chydweithredol ar bob lefel
	✓	✓	
	Nod Strategol 4: Datblygu'r gweithlu er mwyn helpu i ddarparu diogelwch ac ansawdd	**Nod Strategol 5:** Bod yn gyflogwr rhagorol ac yn lle gwych i weithio ynddo	**Nod Strategol 6:** Cael ei gydnabod fel partner, dylanwadwr ac arweinydd rhagorol
	✓		

Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion
Bydd y diwygiad arfaethedig yn galluogi'r Gyfarwyddiaeth Nyrsio i barhau i gymeradwyo gwariant yn ystod cyfnod lle bydd y rôl Cyfarwyddwr Nyrsio yn wag. Yn y pen draw, bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd, diogelwch a phrofiad cleifion a staff.
Goblygiadau Ariannol
Nid oes goblygiadau ariannol i'r Bwrdd fod yn ymwybodol ohonynt.
Goblygiadau Cyfreithiol (gan gynnwys asesu cydraddoldeb ac amrywiaeth)
Mae'n hanfodol fod AaGIC yn cydymffurfio â'i Reolau Sefydlog.
Goblygiadau Staffio
Nid oes goblygiadau staffio i'r Bwrdd fod yn ymwybodol ohonynt.
Goblygiadau Tymor Hir (gan gynnwys effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015)
Amh.

Hanes yr Adroddiad	Amh.
Atodiadau	**Atodiad 1** – Terfynau Ariannol Dirprwyedig Diwygiedig (gyda'r newidiadau wedi'u tracio)

Appendix 1 - Delegated Financial Limits

Post	Education and Training Contracts	Education and Training Invoices	Revenue (Other Than Education & Training Contracts)
Board	Above £5m		No Limit
Chief Executive	up to £5m	No Limit (subject to Appropriate Contract Approval)	£250,000
Deputy Chief Executive (when acting in that capacity)	up to £5m	No Limit (subject to Appropriate Contract Approval)	£250,000
Director of Finance & Corporate Services	up to £2m	£2m	£100,000
Director of Nursing & Medical Director and Head of Education, Commissioning and Quality * within delegated budget area		£500,000	£50,000
Executive Directors within delegated directorate budget area			£50,000
Deputy Director of Finance		£50,000	£50,000
Delegated Budget Managers (within delegated budget area)			£25,000
Delegated Budget Managers (within delegated budget area)			£10,000
Delegated Budget Managers (within delegated budget area)			£5,000

Delegated Budget Managers (within delegated budget area)			£1,000

** - The delegated financial limit for the Head of Education, Commissioning and Quality role will take effect for the period where the Director of Nursing role will be vacant following the retirement of the current incumbent in May 2020.*

Dyddiad y Cyfarfod	**28 Mai 2020**	**Eitem ar yr Agenda**	**4.6.1**
Teitl yr Adroddiad	**Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor – y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd**		
Awdur yr Adroddiad	Kay Barrow, Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol		
Noddwr yr Adroddiad	Dafydd Bebb, Ysgrifennydd y Bwrdd		
Cyflwynwyd gan	Gill Lewis, Cadeirydd		
Rhyddid Gwybodaeth	Agored		
Pwrpas yr Adroddiad	Pwrpas yr adroddiad yw amlinellu'r trafodaethau a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd.		
Materion Allweddol	Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar faterion allweddol a godwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd a gynhaliwyd ar 1 Ebrill 2020. Gofynnir i'r Bwrdd nodi crynodeb y cadeirydd er sicrwydd.		
Cam Penodol i'w Gymryd *(un ✓ yn unig)*	**Gwybodaeth**	**Trafod**	**Sicrhau** ✓ / **Cymeradwyo**
Argymhellion	Gofynnir i Aelodau'r Bwrdd: • **Nodi** cynnwys yr adroddiad er sicrwydd. • **Adolygu** perfformiad y Pwyllgor fel y nodir yn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor ar gyfer 2019-2020 (mae'r eitem hon ar wahân ar gyfer Bwrdd mis Mai, yn eitem 4.7 ar yr agenda)		

Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor – y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd

1. CYFLWYNIAD

Pwrpas yr adroddiad yw darparu diweddariad ar y materion a ystyriwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd. Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r adroddiad cryno gan y Cadeirydd.

2. CEFNDIR

Bydd y Bwrdd yn ymwybodol bod tri phwyllgor wedi cael ei sefydlu o dan reolau sefydlog AaGIC. Bydd pob un o'r pwyllgorau'n cyflwyno adroddiadau i'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn, gan amlinellu trafodaethau, materion a risgiau allweddol a drafodwyd yn ystod y flwyddyn.

3. ADRODDIAD GAN GADEIRYDD Y PWYLLGOR

Gofynnir i'r Bwrdd **dderbyn** a **nodi** crynodeb Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Ebrill 2020.

4. MATERION LLYWODRAETHU A RISG

Caiff unrhyw risgiau a materion o ran llywodraethu eu rheoli drwy gyfarfodydd y pwyllgor a bydd adroddiadau ar eithriadau'n cael eu darparu i'r Bwrdd gan y cadeiryddion perthnasol.

5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

Does dim goblygiadau ariannol i'r Bwrdd eu hystyried/cymeradwyo.

6. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i Aelodau'r Bwrdd:

- **Nodi** cynnwys yr adroddiad er sicrwydd.
- **Adolygu** perfformiad y Pwyllgor fel y nodir yn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor ar gyfer 2019-2020 (mae'r eitem hon ar wahân ar gyfer Bwrdd mis Mai, yn eitem 4.7 ar yr agenda)

Llywodraethu a Sicrwydd			
Cysylltu â nodau strategol y Cynllun Tymor Canolig Integredig *(rhowch ✓)*	**Nod Allweddol 1:** Arwain y broses o gynllunio a datblygu gweithlu cymwys, cynaliadwy a hyblyg, a sicrhau ei lesiant, er mwyn helpu i gyflawni *'Cymru Iachach'*	**Nod Allweddol 2:** Gwella ansawdd a hygyrchedd addysg a hyfforddiant ar gyfer yr holl staff gofal iechyd er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y dyfodol	**Nod Allweddol 3:** Gweithio gyda phartneriaid i ddylanwadu ar newid diwylliannol yn GIG Cymru drwy ddatblygu capasiti arwain tosturiol a chydweithredol ar bob lefel
	Nod Allweddol 4: Datblygu'r gweithlu er mwyn helpu i ddarparu diogelwch ac ansawdd	**Nod Allweddol 5:** Bod yn gyflogwr rhagorol ac yn lle gwych i weithio ynddo	**Nod Allweddol 6:** Cael ei gydnabod fel partner, dylanwadwr ac arweinydd rhagorol

Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion
Mae sicrhau bod y Bwrdd yn cyflawni ei fusnes yn briodol drwy ei Bwyllgorau ac yn unol â'i reolau sefydlog yn ffactor allweddol o ran ansawdd, diogelwch a phrofiad cleifion sy'n derbyn gofal.
Goblygiadau Ariannol
Does dim goblygiadau ariannol i'r Bwrdd fod yn ymwybodol ohonynt.
Goblygiadau Cyfreithiol (gan gynnwys asesu cydraddoldeb ac amrywiaeth)
Mae'n hanfodol i'r Bwrdd gydymffurfio â'i reolau sefydlog, sy'n cynnwys derbyn diweddariadau gan ei bwyllgorau.
Goblygiadau Staffio
Does dim goblygiadau staffio i'r Bwrdd fod yn ymwybodol ohonynt.
Goblygiadau Tymor Hir (gan gynnwys effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015)
Mae'r adroddiad yn amlinellu'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor i adolygu cyllid a pherfformiad tymor byr AaGIC, yn ogystal â chanolbwyntio ar gynaliadwyedd yn y tymor hwy. Mae'r strwythur llywodraethu yn ceisio canfod problemau yn gynnar er mwyn eu hatal rhag gwaethygu, ac mae'r Pwyllgor yn integreiddio i drefniadau cyffredinol y Bwrdd.

Hanes yr Adroddiad	Bydd yr adroddiad hwn yn eitem sefydlog ar agenda'r Bwrdd.
Atodiadau	Crynodeb y Cadeirydd - Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd (Atodiad 1).

Appendix 1

Meeting Date	**28 May 2020**	**Agenda Item**	**4.6.1a**
Freedom of Information Status	Open		
Reporting Committee	**Audit and Assurance Committee**		
Report Author	Kay Barrow, Corporate Governance Manager		
Chaired by	Gill Lewis, Independent Member		
Lead Executive Director	Eifion Williams, Director of Finance		
Date of last meeting	1 April 2020		

Summary of key matters considered by the committee and any related decisions made:

Due to the restrictions imposed by the Welsh Government as a result of the COVID-19 Pandemic, HEIW was unable to hold its Audit and Assurance Committee on 1 April 2020 in public. However, following due process, the meeting took place via Skype/Teleconference.

The Committee received an update in relation to the completion of the HEIW **Counter Fraud Work Plan** for 2019-2020. A brief overview of the thematic assessment of counter-fraud, bribery and corruption prevention measures was provided which had taken place with NHS Wales Shared Services Partnership and across the Health Bodies. A number of weaknesses had been highlighted in some control process associated with agency staff and procurement. A number of actions are in place to address the identified weaknesses.

The Committee considered and approved the **Counter Fraud Annual Plan** for 2020-2021. The Committee recognised that the fraud threat posed during emergency situations was higher than at other times and was reassured that the Counter Fraud service was raising awareness of the threat. .

Internal Audit presented a number of reports at the meeting:

- The Committee noted the progress and challenges with the completion of the **2019-2020 Audit Plan.** The following Internal Audit Reports were considered:
    - Risk Management Report – Reasonable Assurance
    - Strategic Planning: IMTP Report – Substantial Assurance
    - Performance Management Report – Reasonable Assurance
    - Core Financial Management Report – Reasonable Assurance
- The Committee received the **Internal Audit Plan 2020-2021** noting that as a result of restrictions due to the COVID 19 Pandemic all audit fieldwork had been suspended. Given this, a review of the delivery of the Audit Plan was anticipated to take place in Q2.

The **Wales Audit Office (WAO)** confirmed that the reduction to the proposed **2020 Audit Fee** had been agreed by the Audit General. However, in terms of the **2020 Audit Plan**, all on-site audit work had ceased although the performance audit work and the financial auditing of the accounts would continue as far as practicably possible.

The Committee received the revisions to the timetable for the submission of the accounts issued by Welsh Government. Draft accounts submission deadline – 22 May 2020 and final accounts submission deadline – 30 June 2020, although Welsh Government would continue to keep these dates under review. The WAO will continue to work with the HEIW Finance Team to ensure the continuation of the financial auditing of the accounts. The Committee discussed the new timetable and was content for the HEIW Finance Team to work to the original submission timetable.

The Committee received and noted the management response to the WAO **2019 Structured Assessment** and agreed that the deadlines dates be revisited in light of the current restrictions and amended as required.

The Committee considered and approved the draft response to the **WAO Audit Enquiries to those Charged with Governance and Management**, which was required as part of the annual audit of the statutory accounts.

The Committee noted the update in relation to the delay with the **Review of the Standing Financial Instructions** which was aligned to the All Wales review. It was expected that the revised Standing Financial Instructions will be issued for NHS Wales Organisations to adopt in July 2020.

The Committee reviewed the **Draft Annual Governance Statement for 2019-2020** and requested that amendments be made to present a more balanced picture in relation to the risks and issues faced by HEIW and areas where improvement was needed.

The **Committee Annual Report for 2019-2020** was approved and is included as a separate item on the Board agenda in order for the Board to review the performance of the Committee during 2019-2020.

The **Procurement Compliance** Report was received. The Committee noted that a review of the current procurement procedure to check against an organisation's Declaration of Interest Register was not as robust as it could be. Potential areas of weakness in the operation of the designed system/control within procurement as also highlighted in the Counter Fraud Thematic Assessment within NHS Wales Shared Services Partnership. HEIW would be working with the Procurement Team to strengthen the process going forward.

The Committee received the **Audit Recommendations Tracker** which had been revised to reflect the Best Practice highlighted within the Welsh Ambulance NHS Trust Audit Tracking Tool and were adopted by HEIW.

The Committee considered the 8 recommendations contained within the Tracker and agreed that actions assessed as 'Green' and fully completed could be removed.

The Committee received an update in relation to the **Welsh Government Grip and Control Expectations** and noted that HEIW would be reviewing its existing

control arrangements in order to provide the required assurance to Welsh Government.

Governance Update for COVID 19: The Committee was updated in relation to the key governance changes that had been undertaken by the Board at its March meeting following the advice and guidance received from the Welsh Government letter in response to the COVID 19 Pandemic.

COVID 19 – Decision Making & Financial Guidance: The Committee received assurance that the Finance Department had a number of measures in place to ensure that work matters were conducted to the appropriate standards.

Key risks and issues/matters of concern of which the Board needs to be made aware:

The Committee is concerned regarding the impact of COVID 19 on the delivery of the Internal and External Audit Plans for 2020-2021 and the ability of both auditing bodies to provide the required assurances to the Board. The Board should also be made aware of the increase risk of fraud during the current crisis period.

Delegated action by the Committee

The Committee approved its Annual Report for 2019-2020 and is recommending that the Board review the Committee's performance for 2019-2020 (this is a separate item for the May Board at agenda item **XX**)

Main sources of information received

- Counter Fraud:
  - Progress Report
  - Counter Fraud Annual Plan
- Internal Audit:
  - Progress Report:
  - Risk Management Internal Audit Report
  - IMTP Planning Internal Audit Report
  - Performance Management Internal Audit Report
  - Core Financial Management Internal Audit Report
  - Internal Audit Plan 2020/21
- Wales Audit Office:
  - Progress Report including an update on 2020 Audit Plan and Fee
  - Structured Assessment Management Response
- Wales Audit Office Audit Enquiries to those Charged with Governance and Management
- Update on Review of Standing Financial Instructions
- Draft Annual Governance Statement 2019/20
- Draft Committee Annual Report 2019/20
- Procurement Compliance Report
- Audit Recommendations Tracker
- Welsh Government Grip and Control Expectations
- Governance Update for COVID 19
- COVID-19 – Decision Making & Financial Guidance

Highlights from sub-groups reporting into this committee

n/a

Matters referred to other Committees

None identified.

Dyddiad y Cyfarfod	**28 Mai 2020**	**Eitem ar yr Agenda**	**4.6.1b**
Teitl yr Adroddiad	**Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor – y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd**		
Awdur yr Adroddiad	Kay Barrow, Rheolwr Llywodraethu Corfforaethol		
Noddwr yr Adroddiad	Dafydd Bebb, Ysgrifennydd y Bwrdd		
Cyflwynwyd gan	Gill Lewis, Cadeirydd		
Rhyddid Gwybodaeth	Agored		
Pwrpas yr Adroddiad	Pwrpas yr adroddiad yw amlinellu'r trafodaethau a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd.		
Materion Allweddol	Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar faterion allweddol a godwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd a gynhaliwyd ar 6 Mai 2020. Gofynnir i'r Bwrdd nodi crynodeb y cadeirydd er sicrwydd.		

Cam Penodol i'w Gymryd *(un ✓ yn unig)*	**Gwybodaeth**	**Trafod**	**Sicrhau**	**Cymeradwyo**
			✓	

Argymhellion	Gofynnir i Aelodau'r Bwrdd: • **Nodi** cynnwys yr adroddiad er sicrwydd.

Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor – y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd

1. CYFLWYNIAD

Pwrpas yr adroddiad yw darparu diweddariad ar y materion a ystyriwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd. Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r adroddiad cryno gan y Cadeirydd.

2. CEFNDIR

Bydd y Bwrdd yn ymwybodol bod tri phwyllgor wedi cael ei sefydlu o dan reolau sefydlog AaGIC. Bydd pob un o'r pwyllgorau'n cyflwyno adroddiadau i'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn, gan amlinellu trafodaethau, materion a risgiau allweddol a drafodwyd yn ystod y flwyddyn.

3. ADRODDIAD GAN GADEIRYDD Y PWYLLGOR

Gofynnir i'r Bwrdd **dderbyn** a **nodi** crynodeb Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mai 2020.

4. MATERION LLYWODRAETHU A RISG

Caiff unrhyw risgiau a materion o ran llywodraethu eu rheoli drwy gyfarfodydd y pwyllgor a bydd adroddiadau ar eithriadau'n cael eu darparu i'r Bwrdd gan y cadeiryddion perthnasol.

5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

Does dim goblygiadau ariannol i'r Bwrdd eu hystyried/cymeradwyo.

6. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i Aelodau'r Bwrdd:

- **Nodi** cynnwys yr adroddiad er sicrwydd.

Llywodraethu a Sicrwydd			
Cysylltu â nodau strategol y Cynllun Tymor Canolig Integredig *(rhowch ✓)*	**Nod Allweddol 1:** Arwain y broses o gynllunio a datblygu gweithlu cymwys, cynaliadwy a hyblyg, a sicrhau ei lesiant, er mwyn helpu i gyflawni *'Cymru Iachach'*	**Nod Allweddol 2:** Gwella ansawdd a hygyrchedd addysg a hyfforddiant ar gyfer yr holl staff gofal iechyd er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y dyfodol	**Nod Allweddol 3:** Gweithio gyda phartneriaid i ddylanwadu ar newid diwylliannol yn GIG Cymru drwy ddatblygu capasiti arwain tosturiol a chydweithredol ar bob lefel
	Nod Allweddol 4: Datblygu'r gweithlu er mwyn helpu i ddarparu diogelwch ac ansawdd	**Nod Allweddol 5:** Bod yn gyflogwr rhagorol ac yn lle gwych i weithio ynddo	**Nod Allweddol 6:** Cael ei gydnabod fel partner, dylanwadwr ac arweinydd rhagorol

Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion
Mae sicrhau bod y Bwrdd yn cyflawni ei fusnes yn briodol drwy ei Bwyllgorau ac yn unol â'i reolau sefydlog yn ffactor allweddol o ran ansawdd, diogelwch a phrofiad cleifion sy'n derbyn gofal.
Goblygiadau Ariannol
Does dim goblygiadau ariannol i'r Bwrdd fod yn ymwybodol ohonynt.
Goblygiadau Cyfreithiol (gan gynnwys asesu cydraddoldeb ac amrywiaeth)
Mae'n hanfodol i'r Bwrdd gydymffurfio â'i reolau sefydlog, sy'n cynnwys derbyn diweddariadau gan ei bwyllgorau.
Goblygiadau Staffio
Does dim goblygiadau staffio i'r Bwrdd fod yn ymwybodol ohonynt.
Goblygiadau Tymor Hir (gan gynnwys effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015)
